

CBAC TGAU

DAEARYDDIAETH

Atebion

Rachel Crutcher
Steph Robinson

YN ARBENNIG
GYMRU




Pennod 1.1 Dalgylch afon ac afonydd


Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 9)

1. Gall hindreulio ddigwydd yn unrhyw ran o'r dalgylch afon lle mae'r graig yn y golwg neu gall y tywydd, planhigion neu anifeiliaid effeithio arno. Enghreifftiau: ar ochrau'r dyffryn, rhannau o sianel yr afon nad ydynt o dan y dŵr, ac ati.


2.



Yn ystod y dydd, mae dŵr yn casglu yn y craciau yn y creigiau



Yn ystod y nos, mae'r dŵr yn rhewi ac yn ehangu



Mae cyfnodau aml o rewi a dadmer yn achosi i'r graig falu. Mae'n syrthio i waelod y llethr fel sgrï

3. Athreuliad yw'r unig fath o broses erydu afon nad yw'n erydu gwely na glannau'r afon. Dim ond llwyth y gwely sy'n cael ei erydu.
4. Unrhyw ddau o'r canlynol:
 - Pan fydd llai o ddŵr yn sianel yr afon. Bydd llai o egni sy'n golygu na fydd y dŵr yn gallu cario'r llwyth a bydd dyddodiad yn digwydd.
 - Pan fydd yr afon yn agos at ei haber. Pan fydd y môr a'r afon yn cwrdd, bydd hyn yn tarfu ar lif yr afon ac yn achosi dyddodiad.
 - Pan fydd y llif yn araf ar ran fewnol ystum afon.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 13)

1. Mae hindreuliad rhewi-dadmer, hindreuliad biolegol a hindreuliad cemegol yn treulio'r creigiau sydd yn y golwg ar ochrau'r dyffryn. Mae hyn yn lledu ochrau'r dyffryn ac yn creu siâp V.
2. Mae ceunant yn ffurfio pan fydd rhaeadr yn encilio. Pan fydd bargod y rhaeadr yn cwmpo, bydd y rhaeadr yn encilio i fyny'r afon. O ganlyniad, bydd yn gadael ochrau serth neu fertigol ar ôl gan na fyddant wedi cael eu herydu gan hindreuliad. Mae hyn yn ffurfio ceunant.
3. Wrth i afon lifo dros ardal o graig galed at fand o graig feddal, mae'n dechrau erydu gwely'r afon ar gyfraddau gwahanol. Bydd prosesau fel gweithred hydrologig, abladiad a hydoddiant yn achosi erydiad fertigol ar wely'rafon, gan arwain at 'ostyngiad' yn yr afon. Mae'r broses hon yn parhau nes bod rhaeadr yn ffurfio. Bydd dŵr yn syrthio dros y graig galed ar wely'r afon islaw, a bydd rhywfaint o'r dŵr yn tasgu'n ôl dros y graig feddal o dan y graig galed. Mae hyn yn achosi i'r graig feddal erydu (drwy weithred hydrologig). Gall prosesau hindreulio cemegol hefyd erydu'r ardal, gan achosi iddi dandorri'r band o graig galed. Mae hyn yn creu bargod.

4. Plymbwll yw pwll o ddŵr ar waelod rhaeadr. Mae'n cael ei greu gan weithred hydrologig y dŵr sy'n syrthio dros y bargod. Mae'r plymbwll yn cael ei erydu ymhellach gan sgrafelliad o ganlyniad i greigiau sydd wedi syrthio dros y bargod. Wrth i fwy o ddŵr syrthio ar y creigiau, maent yn symud ac yn erydu gwely'r afon ymhellach, gan ddyfnhau'r plymbwll.

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 15)

1. Ystum afon yw tro yng nghwrs canol neu gwrs isaf yr afon. Ystumllyn yw llyn siâp pedol sy'n ffurfio pan fydd ystum afon yn cael ei wahanu oddi wrth brif sianel yr afon.
2. Mae prosesau erydol yn digwydd ar lan allanol ystum afon lle mae'r dŵr yn llifo'n gyflymach ac yn lledu ochrau'r sianel. Mae prosesau dyddodol yn digwydd ar lan fewnol ystum afon lle mae'r dŵr yn llifo'n arafach ac yn symud y lan fewnol tuag at i mewn.
3. Mae'r erydiad sy'n digwydd ar ran allanol y tro a'r prosesau dyddodol sy'n digwydd ar ran fewnol y tro yn achosi i'r sianel symud. O ganlyniad mae sianel yr afon yn parhau fwy neu lai yr un lled, ond ei bod wedi symud tuag allan ac ychydig i lawry dyffryn. Mae sianel yr afon yn symud i gyfeiriad llif y dŵr sy'n taro rhan allanol y tro.
4. Ni all gorlifdiroedd ffurfio ar gwrs uchaf afon am fod llawr y dyffryn yn gul iawn a bydd sianel yr afon ynei llenwi. Felly, nid oes lle i'r afon orlifo dros ei glannau gan achosi llifogydd a chreu gorlifdir.

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 17)

1. Gorlifdiroedd yw ardaloedd o dir gwastad ar y naill ochr a'r llall i afon yn y cwrs canol a'r cwrs isaf. Yn y gorlifdiroedd y bydd yr afon yn gorlifo yn naturiol. Os caiff cartrefi eu hadeiladu ar orlifdir, mae'n debygol iawn y byddant yn dioddef llifogydd rywbryd yn y dyfodol. Bydd angen gosod amddiffynfeydd drud rhag llifogydd i amddiffyn y tai, ond efallai na fyddant yn gweithio mewn llifogydd mawr. Felly, nid yw codi tai ar orlifdiroedd yn gynaliadwy oherwydd y gost ychwanegol a bygythiad parhaus llifogydd.
2. Mae sawl ffordd o wneud y broses o godi tai ar orlifdiroedd yn fwy cynaliadwy.
 - Bydd argloddiau yn codi uchder glannau'r afon ac, felly, yn cynyddu capasiti sianel yr afon. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd y tai yn dioddef llifogydd. Fodd bynnag, bydd angen iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n barhaus, sy'n lleihau eu cynaliadwyedd.
 - Mae cadw'r gwrychoedd gwreiddiol yn lleihau effaith colli cynefinoedd ac yn cynyddu cynaliadwyedd.
 - Bydd y dulliau adeiladu a darpariaeth amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael dylanwad mawr ar ba mor gynaliadwy fydd codi tai ar orlifdiroedd. Er enghraifft, mae defnyddio peiriannau trwm yn cywasgu'r pridd, sy'n lleihau capasiti'r pridd ac yn cynyddu'r perygl o lifogydd. Felly, bydd hyd yn oed y rhannau o'r stad o dai nad ydynt wedi'u gorchuddio â choncrid/tarmac yn gwrthsefyll ymdreiddiad. Bydd hyn yn lleihau cynaliadwyedd.

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 19)

1. Mae gorlifdiroedd yn ardaloedd naturiol ffrwythlon ac, felly, nid oes angen defnyddio gwrteithiau artiffisial sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang a llygredd afon (ewtroffigedd). Mae defnyddio tir sy'n naturiol ffrwythlon yn cynyddu cynaliadwyedd ffermio. Bydd rhai ffermwyr yn defnyddio gwrteithiau artiffisial o hyd, gan leihau cynaliadwyedd. Os caiff y gorlifdir ei ffermio yna bydd perygl i'r cnydau a dyfir gael eu difetha gan lifogydd sy'n digwydd yn aml (ac nid yw hyn yn gynaliadwy).

2. Y cynllun rheoli llifogydd rwyf wedi ei astudio yw Afon Aran yn Nolgellau. Y strategaeth rheoli afonydd sydd wedi'i rhoi ar waith i leihau llifogydd yn yr ardal hon yw codi amddiffynfeydd newydd sydd bellter i ffwrdd o'r afon. Roedd hyn yn cynnwys codi waliau yng nghanol y dref a waliau a fyddai'n helpu i atal ffordd Pont yr Aran rhag gorlifo. Un agwedd negyddol ar y cynllun oedd bod angen cwmpo 160 o goed cyn i'r gwaith ddechrau. Roedd hyn yn lleihau effaith peirianeg feddal y coed yn amsugno dŵr yn natgylch yr afon gan arwain at oblygiadau pellach o ran newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r strategaethau peirianeg galed sydd wedi cael eu rhoi ar waith wedi llwyddo i leihau'r perygl o lifogydd i breswylwyr yn y dref. Gweithiodd y project yn agos gydag ysgolion lleol hefyd er mwyn cynyddu dealltwriaeth y plant o'r perygl o lifogydd a'r hyn sy'n dylanwadu ar hynny. O ganlyniad, gwelwyd y gymuned yn ymwneud yn fwy â'r project. Ar y cyfan, rwy'n credu bod y broses o reoli Afon Aran wedi bod yn llwyddiannus.

Pennod 1.2 Morlinau sy'n newid

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 21)

1. B
2. B
3. Mae drifft y glannau yn trawsgludo gwaddod ar hyd morlin ar ongl (45°). Yr enw ar hyn yw torddwr ac mae'n dilyn prif gyfeiriad y gwynt. Bydd disgyrchiant yn tynnu'r tonnau yn ôl i lawr y traeth ar ongl o 90° (yr enw ar hyn yw tynddwr). Mae'r torddwr a'r tynddwr yn parhau ar ffurf igam-ogam gan symud gwaddod ar hyd yr arfordir.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 22)

1. B

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 26)

1. 8106 traeth
8507 traeth
2. 8405 pentir
8506pentir
8106 bae
8406 bae
3. Mae'r cyfuchliniau yn agos at ei gilydd sy'n dangos graddiant serth.
4. Ystyrir bod rhywfaint o Arfordir Penfro yn forlin anghydgordiol. Mae'n cynnwys creigiau gwaddodol sydd fel arfer yn llai abl i wrthsefyll erydiad na chreigiau mwy caled. Mae hyn yn arwain at gyfraddau erydu uwch, sy'n creu pentiroedd a baeau.
5. Bydd erydiad yn digwydd ar y pentir fydd yn gwanhau'r graig ac efallai'n creu bwa. Wrth i do'r bwa syrthio bydd stac yn ffurfio a dros amser, bydd y stac yn erydu'n stwmp.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 29)

1. Mae amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar y morlin – gallai'r rhain fod yn rhai ffisegol neu ddynol. Gall y math o graig effeithio ar gyfraddau erydu am fod rhai creigiau (fel sialc) yn erydu'n haws nag eraill, a all arwain at ffurfio pentiroedd a chlogwyni garw ar hyd y morlin. Gall gormod o dwristiaid effeithio ar y morlin gan orlenwi traethau a gadael sbwriel a allai ladd bywyd gwylt.

Mae gwaredu gwastraff, fel olew o gychod, yn cael effaith ddifrifol ar y morlin. Gall datgoedwigo llystyfiant o amgylch y morlin greu perygl o lifogydd arfordirol. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar y morlin am fod llystyfiant yn amsugno dŵr wrth i lefelau'r môr godi. Yn olaf, gall newidiadau isostatig effeithio ar yr arfordir. Pan fydd iâ yn toddi o ganlyniad i dymereddau cynhesach, bydd dŵr ychwanegol sy'n llifo i'r môr yn achosi i lefelau'r môr godi. Gall hyn gael effaith ddifrifol ar yr arfordir gan achosi llifogydd.

Pennod 1.3 Mudo

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 39)

1. Mudo rheolaidd yw pan fydd pobl yn mynd i mewn i wlad drwy fannau gwirio swyddogol ar y ffin, a mudo afreolaidd yw pan na fydd pobl yn mynd i mewn i wlad drwy'r manau hyn, neu pan fyddant yn mynd i mewn heb y ddogfennaeth briodol.
2. Affganistan yn aml yw gwlad enedigol llawer o fudwyr i wledydd Ewrop ac mae amrywiaeth o ffactorau gwrthio sy'n achosi i bobl adael. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ffactorau gwleidyddol wedi dod yn fwy cyffredin ers i'r Taliban ddod i rym yn y wlad. Mae'r cyfreithiau llym a gyflwynwyd gan y gyfundrefn i'r wlad (fel cyfyngu'n arw ar symudiadau menywod ac ofn erledigaeth pe baech yn gwrthwynebu) wedi bod yn ffactor gwrthio mawr. Bu amodau amgylcheddol anodd yn Affganistan erioed, a allai annog pobl i fudo o'r wlad. Gall yr amodau hinsoddol yn Affganistan gynnwys cyfnodau hir o sychder a thymereddau uchel, gan arwain at ddiffeithdiro sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli'r tir. Mae'r anawsterau hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gynhesu byd-eang. Mae Affganistan yn wlad dlawd iawn hefyd, ac nid oes unrhyw gymorth gan y llywodraeth i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd. Felly, mae'r dinasyddion yn wynebu ffactorau gwrthio economaidd hefyd.

Ar y cyfan, mae'n debyg mai ffactorau gwleidyddol sy'n gyfrifol am y cynnydd mawr yn nifer y mudwyr sydd wedi gadael y wlad dros y blynyddoedd diwethaf. Dyma'r newid mwyaf o ran ffactorau gwrthio, ac mae'n golygu bod pobl yn ofni am eu bywyd ac am ddiogelwch eu teuluoedd.

3. Mae'r wlad groesawu yn aml yn teimlo effeithiau mudo yn fwy na'r wlad enedigol oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sydd yno bellach. Bydd mudwyr yn rhoi pwysau ar dai, addysg a gwasanaethau iechyd. Efallai na fyddant yn gweithio pan fyddant yn cyrraedd y wlad groesawu i ddechrau, sy'n golygu y bydd angen i'r llywodraeth eu cefnogi. Fodd bynnag, gall fod manteision i'r wlad groesawu hefyd wrth i'r mudwyr symud yno. Gallent ddod â sgiliau y mae eu hangen (e.e. sgiliau meddygol i'r DU), a fydd o fudd i dwf y wlad. Gallent hefyd ddod â diwyllianau a bwydydd newydd i'r wlad, sy'n cynyddu amrywiaeth. Er enghraifft, daeth mudwyr o'r Caribî ag elfennau o'u diwylliant i'r DU, sydd wedi arwain at Garnifal Notting Hill yn Llundain bob blwyddyn. Mae'r carnifal yn lliwgar ac yn dod ag awyrgylch parti i'r brifddinas.

Pennod 1.4 Newid aneddiadau

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 46)

1. A

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 48)


- Mae Mumbai ac Efrog Newydd yn enghreifftiau o ddinasoedd gwrthgyferbyniol. Yn gymdeithasol, mae gormod o bobl ym Mumbai sydd â phoblogaeth o fwy na 21 miliwn. Mae gan ddinas Efrog Newydd lai o boblogaeth gyda tua 8.4 miliwn yn byw yno.
 - Mae Mumbai yn ddinas ddiwylliannol ac ieithyddol amrywiol yng nghyd-destun India, ond i raddau llai o safbwynt amrywiaeth fyd-eang. Mae Efrog Newydd yn ddinas fwy amrywiol o safbwynt rhyngwladol ac ethnig.
 - Mae Efrog Newydd a Mumbai yn bwerdai economaidd sydd â chanolfannau masnachu bydeang ar Wall Street ac ym Mumbai. Mae Efrog Newydd yn gyrchfan twristiaid llewyrchus, a greodd \$137 miliwn yn 2023.
 - Mae Mumbai yn gartref i ddiwydiannau gweithgynhyrchu sydd ar gynydd, yn ogystal â Bollywood sy'n cynhyrchu ffilmiau ac yn creu swyddi.
 - Mae'r ddwy ddinas yn brifddinasoedd diwylliant y byd gan eu bod yn cynnwys Broadway a Bollywood.
 - Yn amgylcheddol, mae Mumbai yn wynebu llygredd aer difrifol sy'n cael effaith negyddol ar iechyd. Mae llawer llai o lygredd aer yn Efrog Newydd na Mumbai.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 49)

- Yn fy marn i, mae Llundain yn rhannol gynaliadwy. Yn economaidd, mae'n ganolfan lewyrchus sy'n cynnwys Cylchfan Silicon a'r bwriad i ehangu rhedfeydd meysydd awyr yn Llundain a'r cyffiniau. Mae hefyd yn rhannol gynaliadwy oherwydd y cysylltiadau isadeiledd ag Ewrop o orsaf St Pancras. Bydd cynlluniau'r Canghellor i fuddsoddi yn y system rhwydwaith rheilffyrdd yn denu busnesau pwysig ac yn gwella cysylltedd ag ardaloedd eraill o'r DU. Mae Llundain yn economaidd gynaliadwy oherwydd ei chysylltiadau cryf â'r gyfnewidfa stoc a busnesau yn Canary Wharf a'r cyffiniau. Fodd bynnag, mae lefelau uchel o lygredd yn Llundain o ganlyniad i ddiwydianeiddio blaenorol, sy'n gwneud y ddinas yn llai cynaliadwy. Cyflwynwyd Parth Allyriadau Isel Iawn (ULEZ) i leihau traffig a llygredd ceir. Mae gan Llundain hefyd darged sero net erbyn 2050, a allai leihau diraddiad amgylcheddol yn sylweddol. I gloi, mae Llundain yn rhannol gynaliadwy.

Crynodeb adolygu

Afonydd



2. **Glawiad** – bydd cyfnodau o law trwm yn cynyddu faint o ddŵr sydd mewn dalgylch afon.
Cyfraddau anweddu – yn ystod cyfnodau o dywyddpoeth, bydd y cyfraddau anweddu yn codi, gan leihau faint o ddŵr sydd mewn dalgylch afon.
Tymheredd oer eithafol – yn ystod tywydd oer iawn, bydd llai o ddŵr mewn dalgylch afon am fod mwy o iâ.

3. **Erydiad**

- Hydoddiant – pan fydd cemegion yn y dŵr yn adweithio â chemegion yn y pridd/graig.
- Sgrafelliad/cyrathiad – pan fydd llwyth yr afon yn taro sianel yr afon.
- Gweithred hydrologig – pan fydd grym y dŵr yn taro i sianel yr afon.

Dyddodiad

- Cyfraddau glawiad isel/cyfraddau anweddu uchel – bydd llai o ddŵr yn y sianel.
- Ger yr aber – bydd llif y dŵr yn arafu wrth i'r afon ymuno â'r môr.
- Ystumiau afon – bydd llif yr afon yn arafu ar ran fewnol y tro.


Trawsgludiad

- Crogiant – pan fydd y llwyth yn cael ei gario gan y dŵr.
- Hydoddiant – pan fydd y llwyth wedi hydoddi yn y dŵr.
- Neidiant – pan fydd y llwyth yn neidio ar hyd gwely'r afon.
- Rholiant – pan fydd y llwyth yn rholio ar wely'r afon.


Hindreuliad

- Rhewi-dadmer – pan fydd cyfnodau aml o rewi a dadmer.
- Hindreuliad cemegol – pan fydd cemegion mewn dŵr glaw yn adweithio â chemegion mewn creigiau.
- Hindreuliad biolegol – pan fydd planhigion neu anifeiliaid yn chwalu creigiau.


4. **Rhaeadr:** pan fydd gwely'r afon yn gostwng yn sydyn, gan achosi i'r dŵr syrthio i lefel is. Mae rhaedrau yn dirffurfiau afon erydol.




Ceunant: dyffryn ag ochrau serth sy'n cael ei greu pan fydd rhaeadr yn encilio. Mae ceunant yn dirffurf afon erydol.




Ystum afon: tro yn yr afon a welir fel arfer yng nghwrs canol a chwrs isaf yr afon. Maent yn cael eu ffurfio drwy gyfuniad o erydu a dyddodi.



Ystumlynoedd: llynnoedd siâp cilgant a welir yng nghyrsiau canol ac isaf afon. Maent yn cael eu ffurfio wrth i ystumiau gael eu gwahanu oddi wrth y brif afon. Mae ystumlynoedd yn cael eu ffurfio drwy gyfuniad o erydu a dyddodi.



Gorlifdir: ardal o dir gwastad bob ochr i'r afon. Maent yn dirffurfiau dyddodol, sy'n cael eu creu pan fydd yr afon yn gorlifo.



Defnydd	Effaith ar bobl	Effaith ar ddalgylch yr afon
Ffermio	Yn darparu bwyd ar gyfer y boblogaeth Mwy o gnwd o ganlyniad i bridd ffrwythlon Gellir defnyddio dŵr o'r afon i ddyfrhau cnydau Gall llifogydd arwain at golli cnydau	Mae rhai dulliau ffermio yn diraddio'r tir ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd Gall ffermio arwain at golli cynefinoedd a llai o fioamrywiaeth
Codi tai	Lle i adeiladu tai Mae'n haws adeiladu ar dir gwastad Perygl o lifogydd – mae tir yn rhatach ond mae perchnogion tai yn byw dan fgythiad cyson llifogydd Gall fod yn anodd trefnu yswiriant	Bydd gwrychoedd a chynefinoedd yn cael eu dinistrio, gan leihau bioamrywiaeth Gall y pridd cael ei gywasgu gan beiriannau trwm
Cynhyrchu pŵer trydan (HEP)	Ffynhonnell egni gynaliadwy ar gyfer cartrefi – llai o effaith ar newid hinsawdd	Tarfu ar gynefinoedd wrth i dyrbinau/ argaeau gael eu hadeiladu Newid efallai yn y llif fydd yn cael effaith ymhellach i lawr yr afon
Twristiaeth	Cyfleoedd busnes wrth i dwristiaid ymgasglu mewn un ardal Ardaloeddaddas i ymlacio ynddynt – yn dda ar gyfer iechyd meddwl	Erydiad ar lwybrau troed Gall ceir sydd wedi'u parcio ar y glaswellt ar ymyl y ffordd wneud niwed i'r amgylchedd

6. Afon: Afon Nedd

Lleoliad: de Cymru

Ffynhonnell: ardal ddeheuol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Aber: Bae Abertawe rhwng Abertawe a Phort Talbot



Tirffurfiau erydol: mae sawl rhaeadr sy'n denu twristiaid, e.e. Sgwd yr Eira a Sgwd Gwladus

Tirffurfiau dyddodol: mae'r gorlifdiroedd yn cael eu defnyddio i ffermio ac yn darparu llawr dyffryn gwastad ar gyfer prif ffordd (A465). Mae sawl ystum hefyd.


Effaith ar bobl: mae'r afon yn cynnig cyfleoedd hamdden i bobl (cerdded, pysgota). Mae rhaeadrau yn denu twristiaid, sy'n creu mwy o incwm i fusnesau lleol. Mae llawr llydan y dyffryn yn y cwrs canol a'r cwrs isaf wedi golygu bod modd adeiladu aneddiadau (e.e. Castell-nedd) a chysylltiad prif ffordd rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4.

Arfordiroedd


7.




8. Dilyniant ogof i stwmp – dilyniant erydol o grac bach yng nghraig y pentir i fwa, ac yna stwmp, wedi'i achosi gan erydiad a hindreuliad.




Llyfndir tonnau – arwyneb gwastad neu ar lethr sy'n ffurfio ar waelod clogwyn pan fydd y clogwyn wedi'i erydu.




Traeth – caiff ei ffurfio drwy gyfuniad o donnau adeiladol a driff y glannau. Mae'r tonnau yn dyddodi deunydd ar y lan.



Twyni tywod – pan fydd gronynnau tywod yn cronni drwy brosesau aeolaidd (gwynt).



Tafod – caiff ei ffurfio wrth i ddrifft y glannau ddyddodi gwaddod yn y môr pan fydd y morlin yn newid cyfeiriad neu wrth aber afon.



9.	Ffactor ffisegol	Newid arfordirol sy'n deillio ohono	Ffactor dynol	Newid arfordirol sy'n deillio ohono
	Hinsawdd	Bydd newid hinsawdd yn achosi i lefel y môr godi Bydd ynsoedd isel yn diflannu a bydd ardaloedd eraill yn gorlifo Bydd stormydd yn digwydd yn fwy aml gan greu tonnau distrywiol cryfach fydd yn achosi mwy o erydu	Anheddau	Mae amddiffynfeydd rhag erydiad yn gallu atal lifogydd mewn un lle ond gall hyn effeithio ardaloedd eraill ar hyd y morlin
	Cyrch	Mae cyrch hirach yn galluogi gwyntoedd i gynhyrchu tonnau sydd â mwy o allu i erydu	Diwydiant	Llygredd Gallai'r morlin gael ei newid i greu porthladdoedd
	Daereg	Arfordir anghydgordiol – mae haenau o graig yn rhedeg yn berpendicwlar i'r arfordir gan arwain at ffurfio pentiroedd a baeau Morlin cydgordiol – mae haenau o graig yn rhedeg yn baralel â'r arfordir gan arwain at gyfradd erydu debyg ar hyd y morlin	Amaethyddiaeth	Gall ffermio ar dir wrth ymyl yr arfordir wanhau strwythur y pridd, gan arwain at fwy o ddŵr ffo ar yr arwyneb
			Peirianeg galed	Gall waliau môr, rirapiau, ac ati, leihau erydiad neu lifogyddar ran o'r morlin, ond gallant gynyddu prosesau erydol ymhellach ar hyd yr arfordir
			Peirianeg feddal	Mae ailgyflenwi traethau a thwyni tywod yn atal y tiffurfiau rhag erydu'n naturiol

10. Morlin: Arfordir Penfro

Lleoliad: deorllewin Cymru

Tirffurfiau erydol: dilyniant ogof i stwmp (Pont Werdd Cymru)

Tirffurfiau dyddodol: traethau a thwyni tywod (Traeth Pentywyn, Sir Gaerfyrddin), tafod (Tafod Giltar)

Daeareg: mae'r morlin anghydgordiol yn creu pentiroedd a baeau

Dylanwad dynol:

- Diwydiant: Purfa olew Penfro, Rhoscrowdder, Sir Benfro
- Anheddiad: Dinbych-y-pysgod, Doc Penfro
- Ffermio: tir pori yng Nghors Romley a Freshwater East

Mudo

11.

Math o fudo	Diffiniad	Enghraifft
Dan orfod	Pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi	Trychineb naturiol, rhyfel, erledigaeth
Gwirfoddol	Pan fydd pobl yn dewis gadael eu cartrefi	Er mwyn bod yn agos at deulu, ar gyfer swydd newydd
Rhyngwladol	Pan fydd pobl yn symud o un wlad i wlad arall	Symud o'r DU i'r Swistir
Cenedlaethol	Pan fydd pobl yn symud o fewn un wlad	Symud o Ddoc Penfro i Gaerdydd
Rheolaidd	Pan fydd mudwyr yn mynd i mewn i wlad drwy fannau gwirio rheolaidd ar y ffin	Rhywun yn symud o'r Almaen i'r DU gyda chaniatâd i breswyllo'n sefydlog yn y DU
Afreolaidd	Pan na fydd mudwyr yn mynd i mewn i wlad drwy fannau gwirio rheolaidd ar y ffin neu gyda'r ddogfennaeth gywir	Mudwyr yn croesi'r sianel mewn cychod bach i'r DU

12. Effaith ar y wlad groesawu

- Rhoi hwb i faint o dreth a gesglir
- Llenwi swyddi gwag/bwlch sgiliau
- Gall arwain at gyflogau isel
- Mwy o bwysau ar wasanaethau (addysg, gofal iechyd)
- Gall diweithdra gynyddu os na fydd sgiliau'r mewnfudwyr yn cyfateb i'r rhai sydd eu hangen yn y wlad groesawu

Effaith ar y wlad enedigol

- Dysgu sgiliau dramor y gellir eu trosglwyddo'n ôl i'r wlad enedigol
- Draen dawn
- Mae'r arian sy'n cael ei anfon adref yn codi safon byw yn y wlad enedigol
- Llai o ddiweithdra

Effaith ar y mudwr

- Cyfle i gael gwell swyddi
- Colli teulu a ffrindiau
- Ansawdd bywyd gwell
- Trawma yn bosib o ganlyniad i daith anodd

13.	Strategaeth	Nodweddion Cadarnhaol	Nodweddion Negyddol
	Cyfreithiau, e.e. Bil Mudo Anghyfreithlon (y DU)	Mae'n rhoi'r gallu i awdurdodau symud mudwyr anghyfreithlon o'r wlad	Gall gymryd blynyddoedd i gwblhau allgludiad o ganlyniad i apeliadau cyfreithiol
	System mudo sy'n seiliedig ar bwyntiau	Mae'n sicrhau bod mudwyr yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar y wlad groesawu Bydd mudwyr yn cyfrannu at y wlad	Nid yw'n effeithio ar fudwyr afreolaidd
	Teithio heb fisa	Mae'r cyfnod o amser a phwrpas y mudo yn hysbys pan fydd y person yn mynd i mewn i'r wlad	Gall pobl ddod i wlad gyda fisa a 'diflannu' pan fydd cyfnod y fisa'n dod i ben

14. Canol Busnes y Dref – yn cynnwys adeiladau tal a gwasanaethau fel banciau a swyddfeydd llywodraeth. Dyma hefyd ganolfan fasnachol yr ardal drefol lle mae'r canolfannau siopa mawr, a chanolfan gymdeithasol y ddinas lle mae llawer o gaffis, bariau a bwytai.

Ardaloedd preswyl – ardaloedd o dai neu lety lle mae pobl yn byw. Gallai'r rhain fod yn dai ar wahân, yn dai teras, yn flociau o fflatiau neu'n dai anffurfiol.

Ardaloedd diwydiannol – yn y gorffennol roedd diwydiannau gweithgynhyrchu y DU fod wedi'u lleoli y tu allan i ardal canol busnes y dref fel bod y ffatri'n agos at y man lle roedd pobl yn byw. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd diwydiannol mewn parciau diwydiannol sydd fel arfer ar gyrion yr anheddiad. Gallai'r rhain fod yn ffatrioedd mawr neu'n unedau diwydiannol bach mewn parc busnes.

Ardaloedd hamdden – parciau, ardaloedd gwyrdd, caeau chwarae, ac ati.

15. Dinas global – Efrog Newydd

- Lleoliad: arfordir dwyreiniol UDA
- Cynllun trefol: Mae prif ganolfan fasnach a busnes Efrog Newydd ynghyd â'i phrif atyniadau i dwristiaid wedi'u lleoli ar ynys Manhattan. Yn Manhattan, y prif ardaloedd preswyl yw Upper East Side, Upper West Side, Chelsea a Midtown. Yn Brooklyn, mae'r ardaloedd preswyl yn cynnwys Brooklyn Heights a Williamsburg. Yn Queens, y prif ardaloedd preswyl yw Jackson Heights ac Astoria.
- Pam mae'n ddinas global? Mae Efrog Newydd yn un o brif ganolfannau masnach y byd, yn gartref i Bencadlys y Cenhedloedd Unedig a phrif swyddfeydd llawer o gwmnïau amlwladol. Yma mae un o'r meysydd awyr prysuraf yn y byd ac mae ganddi borthladd llongau masnach pwysig. Heriau: tlodi helaeth ac anghydraddoldeb hiliol parhaus, lefelau uchel o lygredd

Dinas global – Mumbai

- Lleoliad: arfordir gorllewinol India
- Cynllun trefol: mae nifer o ardaloedd preswyl ar hyd a lled y ddinas sydd â chymysgedd o dai anffurfiol a ffurfiol Mae'r ardaloedd masnachol a diwydiannol wedi'u lleoli i'r de o'r ddinas er mwyn bod yn agos at gyfleusterau'r porthladd. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd agored naturiol ar gyrion y ddinas.
- Pam mae'n ddinas global? Mae Mumbai yn un o'r 10 prif ganolfan fasnachu yn y byd, daw 6% o GDP India o Mumbai. Cysylltiadau allforio da drwy'r porthladdoedd.
- Heriau: aneddiadau gorlawn, aneddiadau mawr lle ceir sgwatwyr (Dharavi), prinder swyddi yn y sector ffurfiol, llygredd, clefydau a glanweithdra gwael.

Mega-ddinas – Cairo

- Lleoliad: Ochr orllewinol afon Nîl yng ngogledd-ddwyrain yr Aifft.
- Cynllun trefol: Yn y 1970au, cyflwynodd Cairo y cynllun Cymunedau Trefol Newydd a oedd yn anelu at ddatganoli'r boblogaeth drefol i ffwrdd o'r canol gorlawn. Erbyn hyn, mae amrywiaeth o gymunedau ar gyrion y ddinas ac mae'n ceisio datblygu rhwydwaith trafndiaeth effeithiol i gysylltu'r cymunedau hyn.
- Pam mae'n mega-ddinas? Mae gan Cairo boblogaeth o 20 miliwn o bobla dylanwad sylweddol ar faterion rhanbarthol a byd-eang. Mae'n un o brif ganolfannau diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd y Dwyrain Canol ac Affrica. Mae ganddi economi fawr ac amrywiol a byd diwylliannol llewyrchus.
- Heriau: llygredd aer, prinder dŵr, rheoli gwastraff (mewn ardaloedd tai anffurfiol mawr)

16. Ynni adnewyddadwy – gosod paneli solar ar bob tŷ newydd

Mannau gwyrdd cyhoeddus – gwarchod y manau agored cyhoeddus mewn dinasoedd rhag cael eu datblygu (Central Park yn Efrog Newydd)

Systemau trafndiaeth cynaliadwy – buddsoddi mewn systemau trafndiaeth gyhoeddus, annog beicio drwy gael lonydd beiciau/beiciau trydan yn y ddinas ('Beiciau Boris' yn Llundain)

Safonau adeiladu gwyrdd – Arweinyddiaeth ym Maes Ynni a Datblygu Amgylcheddol (Leadership in Energy and Environmental Design -LEED): system graddio adeiladau gwyrdd a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n rhoi fframwaith ar gyfer adeiladau gwyrdd.

Arbed dŵr – rhoi casgen ddŵr i bob cartref er mwyn casglu a defnyddio dŵr at ddibenion awyr agored. Gosod strategaethau lleihau dŵr yn y cartref (gosod dyfeisiau arbed dŵr mewn sestonau toiled).

Arbed egni – gosod mesuryddion clyfar mewn cartrefi i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd egni, bylbiau sy'n defnyddio llai o ynni

Rheoli gwastraff – annog ailgylchu yn y cartref

2.3 Prosesu a chyflwyno tystiolaeth

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 75)



- Gwnewch yn siŵr bod y ffynonellau yn dod o wefannau dibynadwy, fel gwefannau'r llywodraeth.
 - Gwiriwch y dyddiad y cafodd y ffynhonnell ei hysgrifennu – efallai na fydd ffynonellau a ysgrifennwyd gryn amser yn ôl yn ychwanegu unrhyw werth.
 - Dewiswch ffynonellau sy'n berthnasol i'ch ymchwiliad ac yn ychwanegu gwerth at yr hyn rydych yn ceisio ei brofi.

Crynodeb adolygu

- Y cwestiwn mae'r astudiaeth yn ceisio ei ateb.
- Mae nodi'r canlyniadau a ragwelir yn bwysig ar ddechrau'r broses ymholi gan eu bod yn dangos i'r darlennydd yr hyn rydych yn disgwyl i'ch canfyddiadau ei ddangos. Mae hyn fel arfer yng nghydestun damcaniaethau daearyddol ehangach. Mae hefyd yn galluogi'r daearyddwr i weld a yw ei ganlyniadau yn gyson â'r canlyniadau aragwelwyd, ac yn rhoi cyfle iddo esbonio os ydynt yn wahanol.
- Saeth cwmpawd i'r gogledd, graddfa, teitl, allwedd, saeth i bob safle fel bod modd gweld yr union leoliad.
- Mae systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS) yn cynnwys haenau o ddata y gellir eu troi ymlaen neu eu diffodd yn dibynnu ar ba wybodaeth rydych yn chwilio amdani. Maent yn rhoi gwybodaeth werthfawr am y maes dan sylw cyn i ddata gael eu casglu a gallent ddangos ble fydd y safleoedd casglu data gorau.
- Y gweithgaredd sy'n mynd rhagddo
Dyddiad y gweithgaredd
Lleoliad(au)

Risg i iechyd a diogelwch	Y bobl sy'n wynebu risg	Lefel y risg	Mesurau i leihau risg

6.

Dull samplu	Disgrifiad	Manteision	Anfanteision
Ar hap	Dewis person i ateb eich holiadur ar hap	Yn ddefnyddiol wrth ymchwilio i boblogaethau sampl mawr Yn osgoi tuedd gan na chaiff unrhyw berson penodol ei dargedu	Efallai na fydd yn cynrychioli'r ardal Dim ond rhywfaint o ddata sy'n cael eu samplu ar hap Efallai na fydd rhai safleoedd neu grwpiau cymdeithasol ar gael
Oportiwristaidd	Samplu'r hyn sydd ar gael ar y pryd	Dyluniad hyblyg Yn gyflym i'w gwblhau	Efallai y bydd y sampl yn dangos tuedd Yn anodd ei ailadrodd
Haenedig	Rhannu sampl yn is-grwpiau	Cyfresi data y mae modd eu cymharu Gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â dulliau samplu eraill	Yn cymryd llawer o amser Mae angen sicrhau bod y poblogaethau sydd ar gael yn addas ar gyfer y categorïau a ddewiswyd
Systematig	Casglu data mewn ffordd drefnus drwy system	Gall unrhyw grŵp arall ei ailadrodd er mwyn casglu rhagor o ddata	Efallai na fydd rhai safleoedd yn cael cyfle i gael eu samplu felly ni fyddant yn cael eu cynnwys Gallwch samplu gormod ar un safle, na fydd o bosibl bob amser yn ddefnyddiol

7. Data cynradd yw data rydych yn eu casglu eich hun (yn uniongyrchol). Mae data eilaidd yn bodoli'n barod (mae rhywun arall yn eu casglu)
8. Data meintiol yw data rhifiadol (e.e. cyfrif cerddwyr).
9. Nid yw data ansoddol yn rhifiadol ac yn cofnodi meddyliau, teimladau a safbwyntiau (e.e. cyfweiliadau).
10. Data'r cyfrifiad, mapiau AO, erthyglau papur newydd, data prisiau tai, hen luniau.
11. Cymedr, canolrif, modd amrediad.
- 12.

Math o graff	Cryfderau	Gwendidau
Graff llinell	Yn hawdd ei lunio Yn dangos tueddiadau yn glir	Nid yw'n ddefnyddiol ar gyfer data canrannol Gall y raddfa wneud i dueddiadau ymddangos yn fwy neu'n llai
Graff bar	Yn hawdd ei lunio a'i ddehongli Yn ddefnyddiol ar gyfer data arwahanol	Dim ond gyda data arwahanol y gellir ei ddefnyddio Gall edrych yn anniben os bydd llawer o ddata
Siart gylch	Yn dangos canrannau Mae'n hawdd cymharu'r gwahanol ffactorau	Mae'n fwy anodd cymharu dwy gyfres o ddata Nid yw'n dangos newid dros amser
Graff bar lleoledig	Yn cyfuno data rhifiadol â phatrymau gofodol Mae'n hawdd cymharu graffiau bar	Dim ond ar gyfer data arwahanol y gellir ei ddefnyddio Gall fynd yn rhy llawn
Graff gwasgariad	Yn dangos bod cydberthyniadau yn bodoli. Gellir ychwanegu llinell ffit orau ar gyfer pwyntiau coll	Dim ond yn dangos y berthynas rhwng dwy gyfres ddata Yn anodd eu dehongli os yw'r cydberthyniad yn wan

13.	Math o fap	Cryfderau	Gwendidau
	Map coropleth	Yn hawdd ei lunio a'i ddehongli Cynrychioliad da o ddata dros ofod Yn ddefnyddiol ar gyfer nodi gwahaniaethau gofodol	Yn dangos newid sydyn wrth y ffin Nid yw'n dangos gwahaniaethau o fewn pob ardal
	Map llif	Yn dangos symudiadau pobl a nwyddau Yn dangos cyfaint a chyfeiriad	Yn aml, mae angen addasu'r pellter gwirioneddol er mwyn gallu plotio'r gyfres ddata
	Map symbolau cyfraneddol	Yn dangos y gwahaniaethau rhwng lleoliadau Mae'n hawdd gweld y duedd gyffredinol	Mae'n anodd gweld y data absoliwt ar gyfer pob adran Yn aml, gall y symbolau orgyffwrdd ar y map

14. Dylid defnyddio llyfryddiaeth wrth ddefnyddio data eilaidd fel bod y darllenwyd yn gwybod o ble y daeth y data. Bydd hyn yn awgrymu cywirdeb a dibynadwyedd, ac yn dangos unrhyw duedd allai fod yn y data.
15. Dylai adran dadansoddi ymholiad daearyddol gynnwys data cynradd, data eilaidd, unrhyw ddadansoddiad ystadegol sydd wedi'i gymhwysu at y data, patrymau neu dueddiadau a chyfiawnhad dros nodi'r patrymau neu'r tueddiadau hyn.
16. • Pa duedd/patrwm mae'r siart yn ei dangos/ddangos?
• A yw'r dadansoddiad ystadegol o'r data yn dangos unrhyw dueddiadau eraill?
• Pam y gallai'r data a gasglwyd ddangos y tueddiadau hyn?
• A yw'r data eilaidd yn atgyfnerthu'r tueddiadau hyn?
• Sut mae hyn yn berthnasol i faes ehangach Daearyddiaeth neu'r canlyniadau a ragfynegwyd?
17. Er mwyn sicrhau bod eich dadansoddiad o'r data yn canolbwyntio ar y cwestiynau ymholi, dylid trafod y data yng nghyd-destun y cwestiynau hynny. Dim ond data sy'n berthnasol y dylid eu dewis. Ni ddylid disgrifio'r holl ddata a gasglwyd.
18. Y ffordd orau o strwythuro casgliad yw drwy ateb pob is-gwestiwn, gan esbonio'r duedd a chyfiawnhau'r ateb â data. Gan ddefnyddio'r atebion i'r is-gwestiynau, gellir ateb y prif gwestiwn ymholi a'i gysylltu â'r canlyniadau a ragfynegwyd/maes ehangach daearyddiaeth.
19. Cynllunio ymholiad, casglu tystiolaeth, prosesu a chyflwyno data, dadansoddi data, casgliadau.
20. Mae'n arfer da i ystyried cwestiynau daearyddol pellach yn y gwerthusiad am fod hyn yn dangos beth fyddai'r cam nesaf ar ôl yr ymholiad hwn.
21. Gellir cyfeirio at ddamcaniaethau daearyddol ehangach yn adran dadansoddi, casgliad ac adran gwerthuso'r ymholiad. Gellir hefyd cyfeirio atynt yn yr adran cynllunio wrth feddwl am ganlyniadau a ragfynegir.

Pennod 3.1 Daearyddiaeth anghydraddoldeb

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 86)

1. Mae mynediad gwaeth at signal ffôn symudol a chysylltedd band eang mewn ardaloedd gwledig am fod cost gosod yr isadeiledd yn uchel o gymharu ag ardaloedd trefol lle mae'r boblogaeth yn fwy. Mae deunyddiau gwell, fel ceblau ffibr optig ar gael mewn ardaloedd trefol, ond gwifrau copr a ddefnyddir mewn ardaloedd gwledig o hyd. Mae tirwedd mynyddig hefyd yn effeithio ar gryfder signal drwy adlewyrchu signalau Wi-Fi, gan arwain at gysylltiadau gwaeth. O ran gwasanaethau, mae gan ardaloedd gwledig boblogaethau llai ac nid yw'r llywodraeth yn buddsoddi cymaint mewn gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn o gymharu ag ardaloedd trefol.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 95)

1. A. $\$70,590 - \$840 = \$69,750$
B. \$39,350 (Japan)

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 97)

1. Rwy'n cytuno â'r safbwynt hwn i raddau. Ni ellir atal ffactorau ffisegol (fel trychinebau), dim ond eu rheoli. Felly bydd rhai manau yn wynebu risg o ddigwyddiadau o'r fath trwy'r amser. Mae ardaloedd tlotach yn aml yn ei chael hi'n anodd ailgodi yn dilyn effeithiau trychinebau naturiol am fod ganddynt GDP isel ac isadeiledd gwael, sy'n ei gwneud hi'n anodd ailadeiladu wedi trychineb. Un enghraifft o hyn yw Haiti, sy'n wynebu stormydd trofannolcryfach o hyd. Mae ffactorau ffisegol hefyd wedi cyfrannu at y bwlch datblygiad. Mae gwledydd sydd gydag amodau ffisegol anodd yn wynebu problemau isadeiledd pellach. Er enghraifft nid yw gwledydd tirlgaeedig yn gallu defnyddio porthladdoedd i symud nwyddau.

Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ffactorau dynol wedi creu'r bwlch datblygiad hefyd. Er enghraifft, yn y gorffennol mae gwledydd mwy cyfoethog wedi manteisio ar lawer o wledydd yn Affrica o dan reolaeth drefedigaethol, gan fynd â nwyddau gwerthfawr oddi wrthynt. Mae hyn yn golygu mai ychydig o adnoddau gwerthfawr sydd ar ôl yng ngwledydd Affrica. Mae blociau masnach yn chwarae rôl sylweddol yn y blwch datblygiad wrth i'r Arlywydd Trump gynyddu tollau ar lawer o wledydd. Gallai hyn olygu y bydd gwledydd tlotach yn ei chael hi'n anodd mewnfario neu allfario nwyddau i'r UDA oherwydd y costau cynyddol sy'n cael eu hychwanegu at eu nwyddau neu fewnfario.

<subhead>Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 99)

1. Mae cwmnïau amlwladol yn cael llawer o effaith ar wledydd datblygol. Un effaith gadarnhaol yw y gallant greu swyddi gweithgynhyrchu drwy adeiladu ffatrioedd. Un anfantais yw bod gweithwyr yn aml yn wynebu amodau gwaith gwael gan gynnwys cyflog isel ac oriau hir. Mantais arall yw bod gweithwyr yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau newydd (fel gweithgynhyrchu) er mwyn iddynt wneud eu gwaith at safon dda. Un o anfantais cwmnïau amlwladol yw bod yr elw yn aml yn gadael y wlad ddatblygol ac yn dychwelyd i wlad y cwmni amlwladol, sy'n golygu nad yw'r wlad ddatblygol yn cael budd o unrhyw elw.

2. Mae amrywiaeth o strategaethau a all helpu i gau'r bwllch datblygiad. Er enghraifft, gall twristiaeth helpu gwledydd incwm isel i ddatblygu oherwydd gall greu swyddi i bobl leol. Gall cwmnïau traws-wladol gael effaith lled gadarnhaol am eu bod yn creu isadeiledd a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y wlad incwm isel. Fodd bynnag, maent yn aml yn trin gweithwyr gwledydd incwm isel yn wael, gan wneud iddynt weithio oriau hirach am fawr ddim arian.

Pennod 3.2 Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 101)

1. Mae'r hinsawdd yn amrywio ledled Cymru fel y gallwn weld yn y graffiau hinsawdd. Mae glawiad yn amrywio mwy yn ystod y flwyddyn yn Aberystwyth a Hwlfordd o gymharu â lleoliadau eraill lle mae'n fwy cyson drwy gydol y flwyddyn. Roedd ychydig yn llai o lawiad yn Aberystwyth a Hwlfordd yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae newidiadau mewn tymheredd drwy gydol y flwyddyn yn gymharol gyson ym mhob lleoliad, gyda'r tymheredd ar ei isaf ym mis Rhagfyr, mis Ionawr a mis Chwefror, ac er eu huchaf ym mis Gorffennaf a mis Awst. Gallwn hefyd weld bod y tymheredd dros y gaeaf ychydig yn gynhesach yn Hwlfordd ac Aberystwyth o gymharu â'r rhan fwyaf o'r lleoliadau eraill.
2. O ran newidiadau yn yr hinsawdd yng Nghymru dros y flwyddyn, y misoedd oeraf yw Rhagfyr, Ionawr a Chwefror, a'r misoedd cynhesaf yw Gorffennaf ac Awst. Yr amrediad tymheredd ar gyfer Cymru yw tua 11°C. Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr y gwelir y glawiad trymaf fel arfer. Mae'r misoedd sydd â'r cyfraddau glawiad isaf yn amrywio gan dibynnu ar y lleoliad yng Nghymru, ond mae mis Ebrill yn un o'r misoedd sychaf mewn llawer man.


Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 103)

1.	Aergorff	Tymheredd
	Pegynol-gyfandirol	Aer oer
	Trofannol-arforol	Aer cynnes
	Pegynol-arforol	Aer oer
	Arctig-arforol	Aer oer
	Trofannol-gyfandirol	Aer poeth

2. Po agosaf yw lleoliad i'r cyhydedd, y cynhesaf y bydd y tymheredd. Mae dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae pellter teithio ymbelydredd solar yn fyrrach wrth y cyhydedd o gymharu â'r pegynau felly mae mwy o ymbelydredd solar yn cyrraedd. Ger y pegynau mae ymbelydredd solar yn cyrraedd ar ongl ac felly'n cael ei wasgaru dros lawer o arwyneb y ddaear. Oherwydd hyn nid yw'n gallu cynhesu cymaint. Ar y cyhydedd fodd bynnag mae'r ymbelydredd yn cyrraedd yn uniongyrchol ac felly'n gallu cynhesu mwy.
3. Gall dau beth esbonio pam fod Hwlfordd ychydig yn gynhesach na'r Trallwng yn y gaeaf. Yn gyntaf, mae gan Hwlfordd ledred is na'r Trallwng, sy'n golygu ei fod yn agosach at y cyhydedd ac felly'n gynhesach. Yn ail, yn ystod misoedd y gaeaf, mae gorllewin y DU yn cael ei chynhesu gan gerrynt cefnforol cynnes o'r de-orllewin. Mae Drifft Gogledd Iwerydd yn dod â dŵr cynnes o Gwllf Mecsico, sy'n cynhesu tymheredd yr aer mewn llyfdd fel Hwlfordd yn ne orllewin Cymru.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 105)

1. Aer cynnes yn codi ac yn cyddwyso
2. Gwres wedi'i ailbelydru
- 3.



Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 107)

1. Cell Hadley
2. Mae'r DU yn cael llawer o lawiad oherwydd ei lledred. Ar 55° gogledd, mae ychydig islaw'r man lle mae cell Ferrel a chell Polar yn cwrdd. O ganlyniad, mae'r DU wedi'i lleoli mewn ardal lle mae'r aer yn codi, sy'n achosi gwasgedd isel. Oherwydd y systemau gwasgedd iselaml, mae'r ardal yn cael llawer o lawiad.
3. Nid yw echelin y ddaear yn berpendicwlar, ond mae ganddo ogwydd echelinol o ryw 23.5°. O ganlyniad, mae'r ongl y mae pelydrau'r haul yn taro'r ddaear yn amrywio drwy'r flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod faint o olau'r haul sy'n cyrraedd rhannau o'r ddaear yn amrywio, sy'n rhoi tymhorau i ni.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 109)

1. Gan fod Llundain o flaen y ffrynt cynnes, bydd y tymheredd yn codi wrth i'r corff o aer cynnes agosáu a bydd y gorchudd o gwmwl yn cynyddu. Wrth i'r ffrynt cynnes fynd heibio, bydd Llundain yn debygol o gael rhywfaint o law wrth i'r aer cynnes godi uwchlaw'r aer oer. Yn y sector cynnes, bydd y tymheredd yn gynnes a bydd y glawiad yn gostwng. Fodd bynnag, wrth i'r ffrynt oer agosáu at Lundain, bydd y tymheredd yn gostwng. Wrth i'r ffrynt oer fynd heibio, bydd cyfnod o lawiad trymach. Unwaith y bydd y glawiad yn dechrau clirio, bydd y tymheredd yn gostwng ymhellach o ganlyniad i'r corff o aer oer a fydd bellach dros Lundain, a bydd y glawiad yn gostwng.
2. Mae'r DU yn wynebu llawer o systemau tywydd gwasgedd isel o ganlyniad i'w lledred. Mae'n agos at y man lle mae cell Polar yn cwrdd â chell Ferrel, lle mae'r aer yn codi gan greu systemau gwasgedd isel.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 111)

1. • Isobarau yn bell oddi wrth ei gilydd
• Dim/ychydig o ffryntiau
• Mae'r gwasgedd uchaf yng nghanol y system, ac yn gostwng wrth i chi symud i ffwrdd o'r canol.
2. Yn ystod yr haf, mae antiseiclonaau yng Nghymru fel arfer yn golygu awyr glir, gwyntoedd ysgafn ac amodau sych. Gall hyn arwain at dywydd braf a diwrnodau heulog hir. Gall hefyd olygu bod cyfnodau o sychder yn y DU gyda phrinder dŵr a thanau coedwig mewn ardaloedd megis ucheldir

Cymru. Yn ystod y gaeaf, gall systemau gwasgedd uchel achosi niwl a rhew, sy'n creu amodau gyrru anodd. Mae cyflymder y gwynt fel arfer yn isel neu nid oes unrhyw wynt o gwbl.

3. Yn ystod yr haf, mae'r haul yn uwch yn yr awyr. Gall hyn olygu bod golau'r haul yn gryfach a bod y tymheredd yn gynhesach. Mae'r ddaear yn cynhesu, gan greu ceryntau darfudol. Yn ystod y gaeaf, mae'r haul yn is yn yr awyr sy'n arwain at awyr clir a nosweithiau hir (oeri pelydrol). Mae'r ddaear yn colli gwres yn gyflym, sy'n arwain at amodau rhewllyd. Yn ystod y gaeaf, mae'r systemau gwasgedd isel yn dod ag aer sych, oer o'r pegynau neu'r cyfandir. Yn ystod yr haf, mae'r systemau gwasgedd uchel yn dod ag aer sych, cynnes a all achosi tonnau gwres o bryd i'w gilydd.
4. Gall tonnau gwres effeithio ar bobl a'r economi mewn ffordd gadarnhaol a negyddol. Gallant fod o fudd i'r economi am fod mwy o bobl yn trefnu gwyliau yng Nghymru yn hytrach na mynd dramor. Mae hyn yn cynyddu gwariant yn economi Cymru ac yn creu swyddi tymhorol ym maes twristiaeth a lletygarwch (fel llety gwely a brecwast), sy'n effaith gadarnhaol iawn. Maent yn gymorth i gyflenwyr diodydd oer a hufen iâ am fod y busnesau hyn yn gwerthu mwy yn ystod y cyfnodau cynhesach, ac felly'n gwneud mwy o elw. Fodd bynnag, gall tonnau gwres gael effaith ddinistriol ar gnydau gan achosi iddynt fethu. Mae hyn yn golygu nad oes modd eu gwerthu, sy'n cael effaith negyddol ar yr economi. Gall tonnau gwres gael effaith negyddol ar bobl. Gall mwy o risg o losg haul achosi cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag adrannau brys ysbytai, sy'n rhoi straen ar y GIG. Gall tanau coedwig a achosir gan systemau gwasgedd uchel gael effaith sylweddol wrth i bobl golli eu cartrefi a symud i ffwrdd.

Pennod 3.3 Tywydd garw

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 115)

1. Ateb enghreifftiol:

Corwynt Sandy

- Gwyntoedd cryf: $5 \times 2 = 10$
- Carthion crai yn y dŵr gorlif: $4 \times 3 = 12$
- Digartrefedd: $4 \times 3 = 12$
- Marwolaeth: $5 \times 5 = 25$
- Coed wedi'u dadwreiddio: $4 \times 1 = 4$

2. Un ymateb i Gorwynt Sandy oedd bod y llywodraeth wedi rhoi \$600 miliwn i gynorthwyo pobl. Roedd hyn yn effeithiol iawn oherwydd bu modd ail godi tai i'r rhai oedd yn ddigartref. Ymateb arall oedd bod y trigolion wedi cael eu gorfodi i adael yr ardal. Roedd hyn yn gam dewr ond bu'n gymorth i achub bywydau wrth i bobl symud i rywle mwy diogel. Y trydydd ymateb oedd bod cwmnïau trydan wedi gweithio oriau hir i adfer y pŵer, oedd yn gymorth mawr wrth i bobl ail gydio yn eu bywyd

3.4 Newid hinsawdd parhaus

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 120)

1. Mae blaenoriad orbitol yn achosi i'r ddaear siglo o amgylch ei hechelin o ganlyniad i effeithiau disgyrchol yr haul a'r lleuad. O ganlyniad, gall hyn achosi newid yn nwysedd ac amseriadau'r tymhorau. Gall eu gwneud yn fwy eithafol mewn un hemisffer ac yn llai eithafol yn y llall.
2. Gall echdoriadau folcanig effeithio ar yr hinsawdd. Pan fydd llosgfynydd yn echdorri, bydd yn allyrru carbon deuocsid i'r atmosffer. Nwy tŷ gwydr yw carbon deuocsid ac mae'n cyfrannu at gynhesu byd-eang ac, felly, yn cynyddu'r tymheredd. Fodd bynnag, gall echdoriad allyrru sylffwr deuocsid sy'n adweithio â chemegion penodol yn yr atmosffer gan achosi oeri dros dro. Hefyd,

os bydd yr echdoriad yn un ffrwydrol iawn, gall rhywfaint o'r malurion sy'n cael eu taflu allan o'r llosgfynydd (lludw) fynd i'r atmosffer uchaf a symud o amgylch y byd drwy'r system cylchrediad atmosfferig byd-eang. Gall y lludw hwn wedyn adlewyrchu ymbelydredd solar sy'n dod i mewn fydd yn oeri'r ddaear.

3. Yn ystod cyfnodau rhewlifol, mae'r amrediad tymheredd fel arfer rhwng 0°C a -9°C, ond mae'r amrediad tymheredd ar gyfer cyfnodau rhyngrewlifol fel arfer rhwng 0°C a 3°C. Ceir mwy o lawiad yn ystod cyfnodau rhyngrewlifol na chyfnodau rhewlifol hefyd am fod llawer o'r dŵr wedi'i gloi mewn llenni iâ yn ystod cyfnodau rhewlifol. Mae hyn yn golygu bod cyfnodau rhewlifol fel arfer yn sych. Ar hyn o bryd, rydym mewn cyfnod rhyngrewlifol wrth i ni wynebu tymheredd cynhesach a glawiad.
4. Ar hyn o bryd, rydym mewn cyfnod rhyngrewlifol gan mai'r tymheredd cyfartalog yn 2023 oedd 1.46°C. Fodd bynnag, bydd cynhesu byd-eang yn effeithio ar hyn. Y rheswm naturiol dros y cyfnod cynhesach hwn yw'r cyfnod rhyngrewlifol rydym ynddo, ond rydym hefyd yn gweld mwy nag erioed o nwyon tŷ gwydr yn cael eu hychwanegu at yr atmosffer gan bobl. Mae'r nwyon tŷ gwydr hyn yn achosi i fwy o wres gael ei ddal yn yr atmosffer, gan achosi mwy o gynhesu atmosfferig na welwyd erioed o'r blaen. Felly, rwy'n credu bod cyfuniad o ffactorau dynol a ffisegol yn debygol o fod yn gyfrifol am y cyfnod hwn o gynhesu.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 122)

1. Y broses sy'n cadw gwres yn atmosffer y ddaear yw'r effaith tŷ gwydr. Fel rhan o'r broses hon, mae egni o'r haul yn cynhesu arwyneb y ddaear. Mae'r gwres hwn wedyn yn cael ei ailbelydru i mewn i'r atmosffer. Bydd rhywfaint o'r gwres yn dianc yn ôl i'r gofod, ond bydd y nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn atal llawer o'r gwres rhag dianc. O ganlyniad, mae'r gwres yn cael ei ddal yn yr atmosffer.
2. Mae tanau coedwig yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr gan eu bod yn cynyddu faint o garbon deuocsid (nwy tŷ gwydr) sydd yn yr atmosffer. Pan fydd coed yn cael eu llosgi, byddant yn rhyddhau'r holl garbon deuocsid sydd wedi'i storio ynddynt ers sawl blwyddyn. Hefyd, mae llosgi coed yn atal y coed hynny rhag amsugno carbon deuocsid sydd eisoes yn yr atmosffer sy'n cynyddu lefel y nwy yn yr atmosffer ymhellach.
3. Nid yw llosgi tanwydd ffosil yn gynaliadwy am fod y broses llosgi yn rhyddhau'r holl garbon sydd wedi ei storio yn y tanwydd ers miloedd o flynyddoedd. Yr unig ffordd o wella cynaliadwyedd tanwydd ffosil yw i roi gweithdrefnau dal carbon ar waith a fydd yn helpu i leihau faint o garbon deuocsid sy'n cael i ryddhau i'r atmosffer. Nid yw datgoedwigo yn gynaliadwy am fod coed yn amsugno carbon deuocsid drwy broses ffotosynthesis. Mae gwaredu coed yn lleihau yr amsugno hwn. Fodd bynnag, bydd plannu o leiaf un goeden am bob un sy'n cael ei thorri yn gwneud y broses yn fwy cynaliadwy. Mae safleoedd tirlenwi yn creu methan wrth i'r deunydd gwastraff ddadelfennu. Gellir eu gwneud yn fwy cynaliadwy drwy leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i anfon i safleoedd tirlenwi. Mae ailgylchu yn helpu i leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Felly, gall llawer o weithgareddau dyn sy'n creu nwyon tŷ gwydr fod yn fwy cynaliadwy. Ond, y gweithgaredd mwyaf anghynaliadwy yw llosgi tanwydd ffosil am ei fod mor gyffredin ac mor anodd i ddal y carbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau. Yr unig ffordd o wella cynaliadwyedd yr egni a gynhyrchir yw drwy ddefnyddio egni adnewyddadwy.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 124)

1. Mae creiddiau iâ yn cynnig tystiolaeth tymor hir o newid hinsawdd na ellir ei gweld mewn ffynonellau tystiolaeth eraill. Wrth i haenau o eira sydd wedi ymgasglu bob blwyddyn gywasgu a throï'n iâ, maent yn dal swigod aer sy'n gweithredu fel 'samplau' o'r atmosffer dros filoedd o

flynyddoedd. Felly, gallwn ddadansoddi cyfansoddiad y swigod aer er mwyn deall beth oedd yr hinsawdd yn ystod cyfnodau amser gwahanol.

2. Mae cylchoedd coed yn rhoi tystiolaeth o newid hinsawdd am fod pob cylch yn cynrychioli blwyddyn o dwf. Mae cylch lletach yn awgrymu bod y goeden wedi tyfu mwy yn ystod y flwyddyn honno ac, felly, bod yr hinsawdd yn debygol o fod yn gynhesach ac yn wlypach.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 129)

1.	Yr amgylchedd	Pobl
	Stormydd mwy aml a mwy difrifol	Cnydau yn methu o ganlyniad i ddiffyg glaw a thywydd poeth
	Bydd cynefin llawer o rywogaethau yn symud o ganlyniad i gynhesu ac felly bydd angen i'r rhywogaethau ymsefydlu mewn ardaloedd newydd	Bydd llifogydd yn dinistrio eiddo yn fwy aml am fod lefelau'r môr yn codi a bod mwy o stormydd

2. Mae effaith newid hinsawdd ar y Maldives yn ddifrifol. Gan mai ynysoedd isel ydynt yng nghanol y môr, maent yn debygol o ddiflannu yn gyfan gwbl o dan ddŵr wrth i lefelau'r môr barhau i godi. Mae pobl yn gadael mwy o ynysoedd am ei bod yn rhy beryglus i fyw yno. Mae'n debyg bydd angen i boblogaeth gyfan y Maldives gael ei hadleoli rhywbryd yn y dyfodol. Prif ffynhonnell incwm y Maldives yw twristiaeth o ganlyniad i'r riffiau cwrel naturiol a'r anifeiliaid morol sy'n byw yn y dyfroedd o'u hamgylch. Fodd bynnag, mae cynhesu byd-eang yn arwain at gannu cwrel (coral bleaching) am na all y cwrel oroesi yn y môr cynhesach. Os bydd y cwrel yn marw, bydd llawer o'r anifeiliaid morol sy'n byw yn y dyfroedd hyn yn diflannu, a hefyd y twristiaid sy'n ymweld â'r ardal hon.

Ar y llaw arall, mae poblogaeth Kenya yn ei chael hi'n anodd bwydo eu hunain o ganlyniad i gyfnodau aml o sychder eithafol. Mae tir ffermio yn troi'n ddiffaith yn sgil yr amodau poeth a sych. O ganlyniad, mae llawer o'r boblogaeth yn symud er mwyn chwilio am ardaloedd addas i dyfu dyfu bwyd.

Ar y cyfan, rwy'n credu y bydd effaith newid hinsawdd ar y Maldives yn fwy gyda'r ynysoedd yn diflannu'n gyfan gwbl yn y dyfodol.

Pennod 3.5 Rheoli heriau byd-eang

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 131)

1. Mae nifer o strategaethau a all helpu i liniaru'r newid hinsawdd. Er enghraifft, mae arweinwyr y byd yn cwrdd yng nghynadledau cytundeb newid hinsawdd COP ac yn gosod targedau byd-eang i helpu i leihau allyriadau. Mae hon yn strategaeth bwysig am fod targedau yn helpu i ddwyn pobl i gyfrif a gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Strategaeth arall yw defnyddio paneli solar a allai helpu i leihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio egni gwyrdd naturiol o'r haul yn lle llosgi tanwydd ffosil sy'n rhyddhau llawer mwy o garbon deuocsid.

Crynodeb adolygu

Daeryddiaeth anghydraddoldeb

1. • Daeryddiaeth ffisegol, e.e. mynyddoedd
• Cyllid gan y llywodraeth

- Cyfraddau llythrennedd
- Diwydiannau
- Mynediad at wasanaethau
- Pleidiau/polisiau gwleidyddol

2.	Achosion ffisegol anghydraddoldebau	Achosion dynol anghydraddoldebau
	Daearyddiaeth ffisegol, e.e. mynyddoedd	Cyllid gan y llywodraeth
	Mynediad at ddŵr	Cyfraddau llythrennedd
	Morlinau ar gyfer porthladdoedd neu dwristiaeth	Diwydiannau
		Mynediad at wasanaethau
		Pleidiau/polisiau gwleidyddol
		Rhywedd

3. Amrywiadau rhanbarthol

- Gwahaniaethau o ran cyllid gan Lywodraeth Cymru neu San Steffan
- Anghysondebau o ran gwasanaethau, safon addysg, cyfraddau llythrennedd a deilliannau i blant

Gwahanol ganfyddiadau

- Canfyddiad bod mwy o gyfleoedd, gan gynnwys prifysgolion gwell, yn rhan ddeheuol y DU
- Canfyddiad nad oes gan bobl yng ngogledd Lloegr neu Gymru fynediad cystal at ysgolion o ansawdd uchel ac, felly, y gallant fod yn llai hyddysg neu'n llai medrus na phobl yn y de
- Nid yw'r canfyddiadau hyn bob amser yn gywir

Arwahanu

- Gall llai o fuddsoddiad gan gwmnïau trawswladol a'r llywodraeth mewn ardal wneud i gymunedau deimlo eu bod yn cael eu harwahanu
- Gall cymunedau gwledig yn y DU deimlo wedi'u hynysu o ganlyniad i ddiffyg isadeiledd a buddsoddiad mewn gwasanaethau gan y llywodraeth

4. Strategaethau Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldeb

- Mae Cyngor Merthyr Tudful wedi adeiladu tai fforddiadwy er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n rhentu.
- Ffordd liniaru newydd o amgylch rhannau o'r M4 i'w gwneud yn haws teithio i dde Cymru. Bydd hyn yn gwella cysylltedd i gwmnïau trawswladol a gweithwyr, gan greu mwy o incwm i Gymru.

Strategaethau Llywodraeth y DU i leihau anghydraddoldeb

- Bydd rheilffordd HS2 yn cefnogi cysylltedd rhwng gogledd a de'r DU mewn llyfod allweddol. Mae adeiladu'r trenau a'r traciau yn creu swyddi. Bydd yn lleihau amseroedd teithio gan alluogi mwy o bobl i barhau i fyw yn y gogledd a chymudo i'r de i weithio.
- Ymrwymiad i wario £81 miliwn ar adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd ac 20,000 o dai cymdeithasol newydd er mwyn helpu pobl i godi allan o dlodi.


5.	Achosion ffisegol y bwlch datblygiad	Achosion dynol y bwlch datblygiad
	Mynyddoedd	Gwladychu
	Bod yn dirgaeedig	Cwmnïau trawswladol
	Sychder	Blociau masnach
	Llifogydd	Tollau

Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd

6. Ffactor	Disgrifiad o sut mae'n effeithio ar dymheredd
Aergyrrff	Mae aergyrrff gwahanol yn dod â mathau gwahanol o dywydd: mae aer pegynol yn oer, ac mae aer trofannol yn gynnes.
Uchder	Ceir cydberthyniad negyddol rhwng tymheredd ac uchder: Mae'r tymheredd yn gostwng tua 1°C am bob 150m y bydd wrth fynd yn uwch.
Agwedd	Mae tymheredd y llethrau sy'n wynebu'r de yng Nghymru yn gynhesach na'r llethrau sy'n wynebu'r gogledd. Mae llethrau sy'n wynebu'r de yn profi effaith gwres yr haul yn uniongyrchol, gyda'r llethrau sy'n wynebu'r gogledd yn y cysgod.
Lledred	Yr agosaf i'r cyhydedd y bydd lleoliad, y poethaf fydd y tymheredd.
Ceryntau cefnforol	Y prif gerrynt cefnforol sy'n effeithio ar orllewin y DU (gan gynnwys Cymru) yw Drifft Gogledd Iwerydd. Mae hyn yn golygu bod tymheredd ochr orllewinol y DU yn gynhesach yn y gaeaf na'r ochr ddwyreiniol.
Prifwyttoedd	Mae prifwyttoedd y DU yn dod o'r de-orllewin. Maent yn dod ag aer cynnes ac yn codi'r tymheredd yng Nghymru.


7. Glawi tirwedd

- Mae aer cynnes yn codi
- Mae'n cyddwysu ac yn oeri i ffurfio cymylau
- Wrth i gymylau godi, maent yn oeri ac mae'n glawio (mae aer oer yn dal llai o leithder)
- Mae aer yn teithio'n ôl i lawr ochr arall y mynydd ac yn cynhesu unwaith eto




Glawiad ffrynt

- Mae aer cynnes yn cwrdd ag aer oer
- Mae aer cynnes yn codi dros yr aer oer
- Mae hyn yn creu gwasgedd isel




Glawiad darfudol

- Mae'n digwydd yn ystod misoedd yr haf ar ôl cyfnod hir o dywydd cynnes iawn
- Mae'r haul yn cynhesu'r tir a'r môr, a'r aer uwchben
- Mae'r aer cynnes yn oeri ac yn cyddwysu i ffurfio cymylau
- Mae'r aer yn oeri ac yn ffurfio glaw am nad yw aer oer yn gallu dal lleithder am gyfnod hir



8.



Tywydd garw

9.

Perygl gwasgedd uchel	Tanau California 2025
Achosion	Llai o ffynonellau dŵr o ganlyniad i ddatgoedwigo Mwy o garbon deuocsid a nwyon eraill yn yr atmosffer o ganlyniad i losgi tanwydd ffosil Jetlifau wedi uno Cylchdroad y ddaear yn achosi i aer symud i'r dde
Effeithiau	30 o bobl wedi'u lladd Llygredd aer am wythnosau 23 o bobl wedi'u harestio am ysbeilio Gwerth bron \$57 biliwn o golled i'r economi
Ymatebion	Anfonodd y llywodraeth 7,500 o bobl i helpu
Perygl gwasgedd isel	Corwynt Sandy 2012
Achosion	Anwedd dŵr yn codi ac yn oeri Anghydbwysedd gwres dros foroedd y byd Tymheredd uwch o ganlyniad i gasgliad o nwyon tŷ gwydr
Effeithiau	286 o bobl wedi'u lladd Gwerth tua \$70 biliwn o ddifrod Gollyngodd 1.5 biliwn o dunelli o garthion i'r afonydd
Ymatebion	Cynhaliwyd cyngerdd codi arian Cafodd awyrennau eu canslo \$600 miliwn o gyllid gan y llywodraeth

Newid hinsawdd parhaus

10. Achosion naturiol newid hinsawdd:

- Ehdoriadau folcanig yn rhyddhau nwyon gwenwynig sy'n tewhau'r haen oson
- Cylchredau Milankovitch – newidiadau mewn tymheredd wrth i'r ddaear gylchdroi o amgylch yr haul
- Brychau haul
- Planhigion ac anifeiliaid yn resbiradu

Achosion dynol newid hinsawdd:

- Llosgi tanwydd ffosil
- Cynnydd mewn llongau cynwysyddion
- Anfon gwastraff electronig (e-wastraff) i safleoedd tirlenwi
- Datgoedwigo
- Ffermydd gwartheg
- Ffracio olew

11. Data craidd iâ: colofn o iâ wedi'i drilio allan o rewlif neu len iâ. Mae'n dangos haenau o iâ dros amser gyda gronynnau carbon wedi'u dal.

Cylchoedd coed (dendrocronoleg): mae coed yn tyfu'n gynt mewn tymheredd cynhesach. Mae cylchoedd coed y tu mewn i'r boncyff yn dangos tystiolaeth o newid hinsawdd wrth iddynt dyfu. Gellir cysylltu cylchoedd â newidiadau hinsawdd a gofnodwyd.

IPCC/NASA: panel rhynglywodraethol ar newid hinsawdd. Mae'n casglu ac yn monitro data ar newid hinsawdd.

Cromlin Keeling: amrywiadau tymhorol o ran lefelau'r CO₂ atmosfferig a gofnodwyd yn arsyllfa Mauna Loa. Mae'r crynodiad o CO₂ wedi cynyddu rhwng 1960 a 2010.

Rhewlifoedd/llenni iâ sy'n encilio: mae arsylwi llenni iâ yn ehangu ac yn cyfangu yn ffordd dda o ddangos newid hinsawdd. Maent yn encilio'n gynt wrth i'r tymheredd godi.

Lefel y môr yn codi: mae mwy o ehangiad thermol mewn hinsoddau cynhesach wrth i gapiau iâ a rhewlifoedd ddadmer. Gall monitro newidiadau yn lefelau'r môr roi amcan da o gyfraddau newid hinsawdd.

12.

	Cymdeithasol	Economaidd	Amgylcheddol
Kenya (tirgaeedig)	Poblogaeth o 55 miliwn o bobl Risg o newyn wrth gollu cnydau a ffynonellau dŵr	Mae bron 2 filiwn o bobl yn ymweld â'r wlad bob blwyddyn. Bydd newid hinsawdd yn lladd ecosystemau fydd wedyn yn cael effaith ddifrifol ar y diwydiant twristiaeth. Mae Kenya hefyd yn allforio gwerth \$190 miliwn o fwyd bob blwyddyn, fydd yn lleihau os caiff cnydau eu colli.	Bydd cyfnodau o sychder yn lladd llawer o'r cnydau a'r ecosystemau hyn.
Y Maldives (ynys)	Bydd hyd at 80% o'r boblogaeth yn cael ei dadleoli erbyn 2050 o ganlyniad i newid hinsawdd	Caiff y brif ffynhonnell incwm, sef twristiaeth – sy'n gyfrifol am 50% o'r economi (GDP) ei cholli'n flynyddol	Mwy o erydu arfordirol a stormydd trofannol (gan gynnwys rhai cryfach a dwysach)

Rheoli heriau byd-eang

13. Unrhyw dri o'r rhain:

- **Paneli solar:** math gwyrdd, adnewyddadwy o egni, dim allyriadau, cyfraddau cynhesu byd-eang araf. Fodd bynnag, maent yn ddrud i'w gosod a gallant gyfrannu at lefelau llygredd wrth eu cludo a'u gosod.
- **Cynadleddau newid hinsawdd COP:** mae arweinwyr byd-eang yn dod ynghyd ac yn cytuno ar dargedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Mae targedau yn feincnodau da i ddwyn gwledydd eraill i gyfrif. Fodd bynnag, mae angen gwneud buddsoddiad ariannol mawr mewn isadeiledd er mwyn cyflawni allyriadau carbon sero net.
- **Protestiadau:** yn codi ymwybyddiaeth o broblem newid hinsawdd. Maent yn arbennig o effeithiol pan fydd pobl enwog fel David Attenborough a Greta Thunberg yn mynegi barn gan roi pwysau ar wleidyddion i weithredu. Fodd bynnag, nid yw'r effaith hyn mor fawr â newid isadeiledd neu osod targedau.
- **Coedwigo:** plannu llawer o goed er mwyn i ffotosynthesis ddal y carbon atmosfferig.

14.

Bygythiad	Sut mae'n bygwth bioamrywiaeth cefnforoedd?	Graddfa'r bygythiad	Strategaethau i reoli'r bygythiad	Cynaliadwyedd y dulliau rheoli
Newid hinsawdd	Asideiddio cefnforol wrth i CO2 gael ei amsugno gan y moroedd – mae'n effeithio ar riffiau cwrel ac organebau â chregyn	Mater byd-eang Lefel y môr yn codi – mae 800 miliwn o bobl yn byw mewn dinasoedd lle y gallai lefel y môr godi fwy na 0.5 m, gan eu gorfodi i symud	Cynlluniau dal carbon, e.e. adfer mawnogydd ar yr ucheldiroedd, cynhadledd newid hinsawdd COP	Nod y DU yw adfer 25% o'i mawnogydd ar yr ucheldiroedd drwy eu hail-wlychu. Mae hon yn strategaeth naturiol (gynaliadwy)
Plastigion a llygredd	Mae 80% o sbwriel morol yn dod o ffynonellau ar y tir – mae hyn yn effeithio ar 100,000 o rywogaethau morol yn fyd-eang bob blwyddyn Mae halogyddion mewn dŵr yn newid ei werth pH, gan arwain at asideiddio cefnforol	Mater byd-eang mae 8 miliwn o ddarnau o blastig yn cyrraedd y cefnforoedd bob dydd	Sefydlodd Boyan Slat sefydliad The Ocean Cleanup Mae UNCLOS yn helpu i reoli ac amddiffyn rhag gorbysgota a llygredd	Mae The Ocean Cleanup wedi casglu miloedd o gilogramau o wastraff plastig, ond mae tystiolaeth bod rhai anifeiliaid morol wedi cael eu dal ynddo Fframwaith cyfreithiol yw UNCLOS sy'n cwmpasu pob morlin a chefnfor. Mae ganddo bwerau cyfreithiol cryf drwy'r Cenhedloedd Unedig.

Pennod 4.1 Y cysyniad o gynaliadwyedd

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 139)

1. Rwyf wedi astudio Machynlleth. Yn fy marn i, mae'n weddol gynaliadwy. Mae gan y dref grŵp ecogyfeillgar o'r enw Ecodyfi sy'n hyrwyddo'r defnydd o egni adnewyddadwy ac ecodwristiaeth, sy'n beth da am ei bod yn golygu bod llai o allyriadau carbon yn cael eu cynhyrchu. Mae Machynlleth hefyd yn gartref i Ganolfan y Dechnoleg Amgen sy'n rhoi gwybod i bobl leol am egni gwyrdd a charbon sero net. Mae hyn yn cynyddu cynaliadwyedd am ei fod yn addysgu pobl am eu gweithredoedd. Mae'r coetiroedd yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy fel bod ecosystemau yn gallu goroesi ac nad yw twristiaeth yn effeithio arnynt. Mae hyn yn gynaliadwy am nad yw cynefinoedd yn cael eu dinistrio ac nad oes unrhyw darfu ar gadwyni bwyd. Mae UNESCO hefyd yn gwarchod bywyd gwyllt sy'n golygu bod ganddo statws gwarchod arbennig sydd, gobeithio, yn helpu'r ecosystemau i oroesi am gyfnod hwy.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 141)

Nod llesiant	Dangosyddion llesiant cenedlaethol
Cymru lewyrchus	Oedolion â chymwysterau, ansawdd aer, cyflog teg
Cymru gydnerth	Ansawdd aer, ymdeimlad o gymuned
Cymru iachach	Babanod iach, ansawdd aer, oedolion â chymwysterau, cyflog teg, ymdeimlad o gymuned
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cyflog teg, babanod iach, oedolion â chymwysterau, ymdeimlad o gymuned
Cymru â chymunedau cydlynus	Ymdeimlad o gymuned, pobl yn siarad Cymraeg bob dydd
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Pobl yn siarad Cymraeg bob dydd, ymdeimlad o gymuned
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Ansawdd aer, cyflog, teg, ymdeimlad o gymuned, Pobl yn siarad Cymraeg bob dydd

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 143)

1. Yn fy marn i, rwy'n credu bod yr ymdrechion i fod yn gynaliadwy wedi bod yn weddol lwyddiannus. Yng Nghymru, mae cynllun Beicio i'r Gwaith wedi galluogi pobl i brynu beiciau am bris gostyngol. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur pa mor aml y mae pobl yn defnyddio eu beiciau i gymudo o gymharu â'u car. Cynllun arall i gynyddu cynaliadwyedd yw ailgylchu mwy er mwyn leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yn fy marn i, mae hyn wedi bod yn llwyddiannus am fod mwy o bobl yn ailgylchu plastig a chardbord. Fodd bynnag, nid oes modd ailgylchu pob math o blastig felly ni fydd casgliadau wythnosol y cyngor bob amser o fudd i'r amgylchedd. Mae paneli solar yn ffordd dda o annog pobl i fod yn fwy cynaliadwy am eu bod yn fath o egni gwyrdd, ond gallant edrych yn hyll ar dai ac nid ydynt yn cynhyrchu cymaint o egni â thanwyddau ffosil.

Gallant hefyd fod yn ddrud i'w prynu a'u gosod. Gallai canolfan fysiau newydd Caerdydd fod yn gynaliadwy ar yr amod ei bod yn annog pobl i ddefnyddio bysiau cyhoeddus yn lle eu ceir am fod bysiau yn cario mwy o bobl. Fodd bynnag, bydd pobl am ddefnyddio ceir i gyrraedd manau anghysbell o hyd. Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ddefnyddiol gan eu bod yn helpu i osod targedau mesuradwy ar gyfer gwledydd. Fodd bynnag, nid yw pob gwlad yn dilyn y canllawiau neu'r targedau.

Pennod 4.2 Gwneud penderfyniadau cynaliadwy

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 145)

- A.** Gallai un o breswylwyr oedrannus y pentref fod yn amharod i dderbyn y datblygiad tai newydd fyddai'n achosi newid mawr i'r pentref ac yn arwain at ddylifiad o breswylwyr newydd. Gallai fod yn pryderu am dagfeydd traffig yn y pentref a mwy o sŵn.

B. Gallai fod gan y cynghorydd lleol farn gymysg am y datblygiad hwn. Ni fydd eisiau pechu etholwyr presennol y pentref, ond bydd hefyd am ddarparu tai fforddiadwy i breswylwyr lleol.

C. Byddai'r datblygwyr tai yn awyddus i fwrw ati gyda'r datblygiad fydd yn cynnig gwaith i'w weithwyr ac elw o bosib i'r cwmni.

D. Mae'n bosibl y bydd perchennog ffatri bum milltir i ffwrdd o'r pentref yn falch bod y datblygiad yn digwydd oherwydd gallai ddod â gweithlu ifanc i'r ardal i lenwi'r swyddi gwag sydd ganddo.

E. Mae'n bosibl y bydd teulu o bump sy'n byw mewn tŷ dwy ystafell wely ar hyn o bryd yn falch bod y datblygiad yn digwydd er mwyn gallu symud i dŷ mwy yn yr ardal.
- Maint y plot lle bydd y tai yn cael eu hadeiladu
 - Oes yna ddigon o gyfleusterau yn y pentref ar gyfer y boblogaeth bresennol?
 - Arolwg llif traffig
 - Beth yw poblogaeth bresennol y pentref
 - Y cyfleoedd cyflogaeth posibl yn yr ardal
- Gallai'r datblygiad ddenu teuluoedd newydd. Gallai hyn gynyddu'r galw am wasanaethau lleol (fel ysgolion), gan sicrhau eu bod yn gallu aros ar agor. Gallai hefyd ddenu cwsmeriaid newydd i siopau a busnesau lleol a fyddai'n sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gallu aros ar agor. Fodd bynnag, gallai hefyd fod mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus fel meddygon teulu a deintyddion, gan arwain at amseroedd aros hirach. Gallai hyn arwain at wrthdaro rhwng y trigolion presennol a rhai newydd.

Nawr rhwch gynnig ar hyn (t 147)

- Nodweddion negyddol:** mae'n bosibl y bydd yn rhaid i adeiladau (fel tai a ffatrioedd) adleoli os bydd yr ardal lle maent ar hyn o bryd yn cael ei boddi er mwyn creu'r gronfa ddŵr. Byddai hyn yn arwain at gymunedau cyfan yn cael eu dadleoli a'u chwalu.

Nodweddion cadarnhaol: mwy o sicrwydd i drefi a phentrefi yng nghwrs isaf yr afon a fydd yn cael eu hamddiffyn rhag llifogydd. Dulliau gwell o reoli dŵr yn yr ardal a chyflenwad dŵr mwy cynaliadwy.
- Nodweddion negyddol:** gall ailgylchu plastigion ryddhau cemegion i'r atmosffer gan achosi llygredd aer a dŵr lleol. Mae'n bosibl y bydd mwy o gerbydau trwm yn cludo'r plastigion a'r cynhyrchion terfynol i'r safle ailgylchu ac oddi yno. Gall hyn achosi mwy o dagfeydd ar y ffyrdd.,

Nodweddion cadarnhaol: gallai'r safle gynnig gwaith i rai o'r bobl sy'n ddi-waith yn y ddinas. Gallai gynnig cyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio. Gallai'r safle gael effaith lluosydd gadarnhaol wrth i fusnesau lleol eraill gael budd o'r ffaith bod mwy o bobl mewn gwaith.

Nawr rhowch gynnig ar hyn (t 149)

1.

Dadansoddiad SWOT gan ddefnyddio matrices bregusrwydd	
<p>Yr her fwyaf a'r angen mwyaf i weithredu</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae yn y 129ain safle allan o 192 ar Fynegai Risgiau Hinsawdd y Byd Dyma'r 122ain gwlad fwyaf bregus ar y matrices risg bregusrwydd Mae'n dibynnu'n helaeth ar fuddsoddiadau uniongyrchol o dramor (FDI) a rhoddion Tywydd eithafol Lefel y môr yn codi 	<p>Yn wynebu heriau mawr, ond yn addasu datrysiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> System storio batri Uwchraddio isadeiledd Cynllunio effeithlonrwydd egni Cydweithio â gwledydd eraill
<p>Prin yw'r heriau presennol ac mae amser i baratoi</p> <ul style="list-style-type: none"> Strategaeth Newid Hinsawdd 2020-2030 Mae systemau monitro ar waith 	<p>Mewn sefyllfa dda gyda heriau prin</p>

2. Rwy'n cytuno'n llwyr fod trigolion St Lucia yn wynebu risg o ddod yn ffoaduriaid yn sgil newid hinsawdd. Maent yn wynebu gormod o heriau a risgiau ac nid oes ganddynt fawr ddim datrysiadau i atal trychineb naturiol y llifogydd hyn. Mae eu safle ar Fynegai Risgiau Hinsawdd y Byd yn golygu eu bod yn agos at hanner gwaelod y tabl byd-eang ac nad oes ganddynt fawr ddim o safbwynt hunangynhaliadaeth i atal trychinebau naturiol fel corwyntoedd a llifogydd. Maent hefyd yn dibynnu'n helaeth ar fuddsoddiad o dramor, felly os byddant yn colli eu twristiaeth, ni fyddant yn gallu denu rhagor o fuddsoddiad gan na fydd dim sy'n werth buddsoddi ynddo. Mae hyn yn golygu eu bod yn arbennig o agored i her a risg newid hinsawdd heb fawr ddim gobaith o adfer. Ymddengys mai dim ond systemau wrth gefn batri dros dro sydd ar waith ar St Lucia ac nad oes unrhyw ffynhonnell pŵer amgen wirioneddol. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn agored iawn i effeithiau newid hinsawdd.

Crynodeb adolygu

- Diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw eu hunain.
- Sefydlogrwydd economaidd tymor hir
 - Amddiffyn yr amgylchedd, gan gynnwys anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd.
 - Lleihau llygredd ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd
 - Gwneud yn siŵr bod anghenion yr holl ddinasyddion yn cael eu diwallu a bod ganddynt fynediad cyfartal at adnoddau

3.

Economaidd	Amgylcheddol	Cymdeithasol
Cefnogi twf a datblygiad economaidd mewn ffordd sy'n bosibl yn ariannol yn y tymor hir Masnach deg a sicrwydd drwy gyflogaeth tymor hir	Amddiffyn ecosystemau naturiol, gwarchod adnoddau a lleihau llygredd ac allyriadau carbon	Sicrhau bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu (bwyd, dŵr, addysg a gofal iechyd)

4.

Rhif y Nod Datblygu Cynaliadwy	Pa biler ar y stôl cynaliadwyedd?	Amcan y Nod Datblygu Cynaliadwy	Enghraifft o achos lle mae pobl yn gweithio tuag ato
1	Economaidd	Rhoi diwedd ar dlodi o bob math ym mhob man	Mae cyfanswm o 350 o fesurau amddiffyn cymdeithasol wedi'u cyflwyno gan 105 o wledydd gwahanol
2	Cymdeithasol	Rhoi diwedd ar newyn, darparu sicrwydd bwyd a maeth gwell, a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy	Fawr ddim cynnydd, os o gwbl, ers 2000
3	Cymdeithasol	Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb o bob oedran	Mae 146 o 200 o wledydd y byd wedi cyflawni'r gyfradd marwolaethau dan 5 oed (neu'n debygol o wneud hynny)
4	Cymdeithasol	Sicrhau addysg gynhwysol o ansawdd da i bawb Hyrwyddo dysgu gydol oes i bawb	Bydd 1 o bob 6 gwlad yn cyrraedd y targed ar gyfer ysgolion uwchradd
5	Cymdeithasol	Sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau Grymuso merched a menywod	Mae 15.4% o wledydd yn debygol o gyrraedd targedau 2030 ar gyfer y pum prif ddangosydd sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb rhwng y rhywiau
6	Amgylcheddol	Sicrhau bod dŵr ar gael Dulliau cynaliadwy o reoli dŵr Glanweithdra i bawb	Nid oes gan filiynau o bobl ddŵr yfed diogel o hyd Mae llywodraethau a chyrrff anllywodraethol fel Water.org yn adeiladu systemau dŵr pibell, ffynhonnau, tyllau turio, a systemau cynaeafu dŵr glaw
7	Economaidd Amgylcheddol	Sicrhau bod gan bawb fynediad at egni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy	Mae 675 miliwn o bobl yn dal i fyw heb olau (mae 4/5 o'r bobl hyn yn byw yn Affrica Is-Sahara) Mae Rwanda wedi lansio project pŵer solar cenedlaethol wedi'i gyfuno â mentrau coginio glân
8	Economaidd	Twf economaidd parhaus a chynhwysol Cyflogaeth lawn a gwaith teilwng i bawb	Disgwylir i gyfraddau diweithdra byd-eang ostwng Er enghraifft, mae Rhaglen Rhwyd Ddiogelwch Gynhyrchiol (PSNP) Ethiopia yn cyflogi gweithwyr gwledig mewn gwaith cyhoeddus yn ystod cyfnodau o brinder bwyd tymhorol
9	Economaidd Amgylcheddol	Adeiladu isadeiledd cadarn, hyrwyddo diwydianeiddio cynhwysol a chynaliadwy	Nid yw gwledydd incwm isel yn debygol o gyrraedd eu targed 2030 ar gyfer Nod Datblygu Cynaliadwy 9. Fodd bynnag, mae Cynllun Twf a Thrawsnewid Ethiopia wedi rhoi blaenoriaeth i ffyrdd, rheilffyrdd ac argaeau pŵer trydan dŵr

Rhif y Nod Datblygu Cynaliadwy	Pa biler ar y stôl cynaliadwyedd?	Amcan y Nod Datblygu Cynaliadwy	Enghraifft o achos lle mae pobl yn gweithio tuag ato
10	Economaidd Cymdeithasol Amgylcheddol	Lleihau anghydraddoldeb mewn gwledydd a rhwng gwledydd	Llwyddodd polisi addysg gynradd am ddim Malawi i gynyddu'r nifer o blant tlawd mewn ysgolion yn eithaf dramatig
11	Economaidd Cymdeithasol Amgylcheddol	Sicrhau bod dinasoedd ac aneddiadau yn gynhwysol, yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy	Mae 1.1 biliwn o breswylwyr trefol yn byw mewn slymiau Er enghraifft, mae nifer o slymiau yn Kibera (Nairobi) wedi cael eu huwchraddio gan gynnwys gwella toiledau, llwybrau troed, a goleuadau
12	Amgylcheddol Cymdeithasol	Sicrhau bod patrymau defnydd a chynhyrchu yn gynaliadwy	Yn Ghana , mae Accra yn cefnogi cwmnïau ailgylchu gwastraff cydweithredol i leihau'r defnydd o safleoedd tirlenwi
13	Amgylcheddol	Cymryd camau brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd	Bydd tymheredd y byd yn codi uwchlaw 1.5°C erbyn 2035 Mae'r cynnydd yn lefel y môr wedi dyblu dros y degawd diwethaf Nod Bergen Werdd yr UE yw sicrhau mai Ewrop fydd y cyfandir niwtral cyntaf o ran hinsawdd erbyn 2050
14	Amgylcheddol	Gwarchod y cefnforoedd a'r adnoddau morol ar gyfer datblygu cynaliadwy	Pysgota anghyfreithlon sy'n gyfrifol am 1 o bob 5 pysgodyn sy'n cael eu dal Mae asideiddio cefnforol wedi treblu ledled y byd Mae Rhaglen Economi Las Banc y Byd yn helpu gwledydd i reoli adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy
15	Amgylcheddol	Gwarchod ac adfer ecosystemau daearol Brwydro yn erbyn diffeithdiro a datgoedwigo Atal tir rhag cael ei ddiraddio a cholli bioamrywiaeth	Cafodd 100 miliwn o hectarau eu diraddio bob blwyddyn (2015-2019) Mae gwledydd yn cydweithio drwy fentrau byd-eang fel ymgyrchoedd Diwrnod y Byd a Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd
16	Cymdeithasol	Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol Sicrhau cyfiawnder a datblygu sefydliadau cynhwysol effeithiol	Roedd 108.4 miliwn o bobl wedi'u dadleoli erbyn diwedd 2022 Mae llywodraeth Rwanda wedi'r hil-laddiad yn hyrwyddo cynhwysiant menywod a grwpiau ethnig er mwyn creu arweinwyr newydd Gwaith ymgyrchoedd cadw'r heddwch y Cenhedloedd Unedig i sefydlogi a chefnogi gwladwriaethau bregus
17	Economaidd Cymdeithasol Amgylcheddol	Atgyfnerthu partneriaethau byd-eang i weithio tuag at ddatblygu cynaliadwy	Nod Ardal Fasnach Rydd Cyfandir Affrica (AfCFTA) yw hybu masnach ac integreiddio yn Affrica drwy weithio gyda gwledydd eraill

Tarddle: <https://www.globalgoals.org/goals/>

5.
 - Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang: 7, 12, 13, 14
 - Cymunedau cydlynus: 15, 18
 - Mwy cyfartal: 5, 10, 11
 - Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu: 4
 - Iachach: 1, 2, 3, 6
 - Gwydn: 16
 - Llewyrchus: 8, 9

6.

Sgîl	Pwysigrwydd
Sgiliau cartograffig	Deall daearyddiaeth ardal er mwyn penderfynu ar y lleoliad cywir
Sgiliau graffigol	Dehongli data a nodi tueddiadau, gan ddychmygu effaith y data a gasglwyd er mwyn llywio penderfyniad
Sgiliau rhifol ac ystadegol	Cymharu a dadansoddi cyfresi data gwahanol
Sgiliau cyfathrebu	Esbonio ffeithiau fel bod pobl eraill yn gallu gwneud synnwyr o'r penderfyniad
Sgiliau gwerthuso	Meddwl yn feirniadol am y data fydd yn llywio penderfyniad
Sgiliau dehongli	Gwneud synnwyr o ddata cymhleth o ffynonellau gwahanol er mwyn dod i benderfyniad
Sgiliau datrys problemau	Datblygu syniadau ar y cyd â phobl eraill er mwyn cynnig datrysiadau cynaliadwy i sefyllfaoedd bywyd go iawn
Sgiliau cyfeirnod	Defnyddio eich ymchwil eich hun i lywio eich penderfyniad a dyfynnu'n gywir o'r ffynonellau

7. Gallai eich ffeil cyfeirnod edrych yn debyg i'r un isod. Gallech hefyd gynnwys cyhoeddiadau a llyfrau.

Cyd-destun	Cyfeiriad
Llygredd – wedi'i rannu i dir, dŵr ac aer	https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zsbn7p3/revision/7
Egni	https://www.coolgeography.co.uk/gcsen/CRM_Energy_Patterns.php
Datblygiad trefol/diwydiannol	https://www.internetgeography.net/aqa-gcse-geography/urban-issues-and-challenges/
Trafnidiaeth	https://www.internetgeography.net/topics/developments-in-infrastructure-in-the-uk/
Twristiaeth	https://studymind.co.uk/notes/case-study-tourism/

8.
 - Teitl y llyfr
 - Awdur
 - Dyddiad cyhoeddi
 - Rhifau tudalennau a ddefnyddiwyd
 - Dyddiad defnyddio'r gwaith

9. Defnyddir asesiadau o'r effaith ar gynaliadwyedd i adnabod y camau gweithredu posib a'u heffaith ar yr amgylchedd.
- Effeithiau amgylcheddol: llygredd, iechyd, colli bioamrywiaeth
 - **Effeithiau economaidd:** dadansoddiad o fanteision penderfyniadau, cynnydd mewn swyddi
 - Effeithiau cymdeithasol: cymuned, iechyd, bywoliaeth a diwylliant


-1 = effaith negyddol, 0 = niwtral, 2 = effaith gadarnhaol, ? = anhysbys				
Cwestiynau adolygu	Effaith economaidd	Effaith gymdeithasol	Effaith amgylcheddol	Os yw'n effaith negyddol, sut y gellir ei lliniaru? Os yw'n effaith gadarnhaol, sut y gellir ei gwella?
e.e. pam mae'r ôl-troed carbon mor fawr?				
e.e. beth yw'r prif sectorau cyflogaeth?				
e.e. sut mae'r boblogaeth yn teimlo o ganlyniad i'r strategaeth?				

Cwestiynau ymarfer ar gyfer arholiad

Uned 1

- 1ai)** Mega-ddinas yw dinas lle mae dros 10 miliwn o bobl yn byw.
- 1aii)** Mae mega-ddinas yn seiliedig ar faint y ddinas (mae dros 10 miliwn o bobl yn byw yno) ond mae dinas global yn chwarae rhan bwysig mewn gweithgareddau economaidd, gwleidyddol a diwylliannol byd-eang.
- 1aiii)** Pum mater cynaliadwyedd sy'n gyffredin mewn dinasoedd global yw cael mannau cyhoeddus gwyrdd, cadwraeth dŵr, systemau trafndiaeth sy'n gynaliadwy, arbed egni a rheoli gwastraff yn gynaliadwy.
- 1bi)** Mae'r llun yn dangos tai anffurfiol gorlawn heb isadeiledd sydd wedi ei gynllunio. Er mwyn cynyddu cynaliadwyedd yr ardaloedd tai hyn, gellir uwchraddio neu ailadeiladu'r tai nad ydynt wedi'u gwneud o ddeunyddiau solet fel bric er mwyn darparu llety diogel. Nid oes gan lawer o aneddiadau anffurfiol gyflenwad dŵr na systemau carthffosiaeth, a all effeithio ar iechyd y trigolion. Bydd rhoi systemau carthffosiaeth a dŵr priodol ar waith yn gwaredu gwastraff yn well ac yn darparu dŵr glân i'w yfed. Bydd hyn yn gwella iechyd y trigolion ac yn gwella cynaliadwyedd.

2a)



- 2bi)** Ystum
- 2bii)** 384932
- 2biii)** Mae'r map yn dangos bod yr afon yn ei chwrs canol am fod llawr y dyffryn yn lletach a bod yr afon yn dolennu. Mae'n ymddangos hefyd fod ystumllynnoedd ar lawr y dyffryn.
- 2c)** Gellir ystyried bod codi tai ar orlifdiroedd yn anghynaliadwy am fod gorlifdiroedd yn ardaloedd o dir sy'n mynd dan ddŵr pan fydd yr afon yn gorlifo. Felly, er mwyn sicrhau na fydd y tai yn dioddef llifogydd, bydd angen adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd a'u cynnal a'u cadw'n gyson. Bydd hyn yn cael effaith economaidd ac amgylcheddol a gallai greu problem llifogydd ymhellach i lawr yr afon, sy'n anghynaliadwy.
- 3ai)** Mae'r map yn dangos symudiadau Mudwyr rhwng Nigeria a'r DU yn 2023. Mae'n dangos bod mwy o fudwyr yn symud o Nigeria i'r DU o gymharu â nifer y mudwyr sy'n symud o'r DU i Nigeria. Mae 141,000 o bobl yn mudo i'r DU o gymharu â 19,000 o bobl yn mudo i Nigeria – gwahaniaeth o 122,000.


3a ii) Gallai eich ateb gynnwys unrhyw dri o'r rhestr ganlynol:

- Mae'r DU yn wlad incwm isel ond mae Nigeria yn wlad incwm canolig felly ystyrir bod gwell safon byw yn y DU.
- Ystyrir bod gwell gwasanaethau addysg ac iechyd yn y DU o gymharu â Nigeria. Felly, gallai pobl fudo o Nigeria er mwyn sicrhau'r manteision hyn ar gyfer eu teulu.
- Mae gan Nigeria isadeiledd gwannach a llai o gyfleoedd buddsoddi o gymharu â'r DU, sy'n denu mwy o gwmnïau amlwladol.
- Ystyrir bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y DU.

3a iii) Gallai effeithiau mudo ar raddfa fawr ar y wlad enedigol gynnwys draen dawn: pobl â lefel uchel o addysg yn gadael gwlad enedigol i chwilio am gyflogau uwch rywle arall. O ganlyniad, mae'r wlad enedigol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bobl sy'n meddu ar gymwysterau priodol i lenwi swyddi sy'n galw am sgiliau arbennig. Un o effeithiau cadarnhaol mudo ar raddfa fawr ar y wlad enedigol yw y gallai arian gael ei anfon adref o'r wlad groesawu. Mae mudwyr economaidd yn aml yn anfon cyfran o'u cyflogau adref at eu teuluoedd yn y wlad enedigol, sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

4a i) Tonnau adeiladol

4a ii)



4a iii) Yn fy marn i, y ffactor sy'n newid yr arfordir fwyaf yw anheddu. Gall aneddiadau effeithio ar yr arfordir mewn sawl ffordd. Pan fydd aneddiadau yn agos at yr arfordir, bydd amddiffynfeydd yn aml yn cael eu hadeiladu er mwyn gwarchod yr anheddiad rhag erydu arfordirol a llifogydd. Gallai hyn fod drwy adeiladu wal fôr neu ddefnyddio riprapiau, er enghraifft. Mae hyn yn newid natur y rhyngweithio rhwng y tir a'r môr, a bydd yn newid cyfradd erydu'r morlin. Mae pobl sy'n byw ar yr arfordir yn achosi newid wrth gynyddu llygredd. Gallai hyn gynnwys dŵr ffo sy'n cynnwys gwaddodion, cemegion a gwastraff, a all niweidio ecosystemau morol a'r amgylchedd.

Ar y llaw arall, mae gwastraff diwydiannol yn effeithio ar lygredd arfordirol. Gall diwydiant hefyd effeithio ar y morlin drwy greu porthladdoedd i fewnforio ac allforio nwyddau. Er enghraifft, mae gan ygwaiith dur ym Mhort Talbot eu porthladd eu hunain i fewnforio deunyddiau crai ac allforio dur. Mae gan y porthladd hwn wal harbwr fawr sy'n newid cyfeiriad ceryntau cefnforol yn yr ardal hon. Gall amaethyddiaeth effeithio ar y morlin hefyd. Pan fydd ffermwyr yn defnyddio'r morlin i bori gwartheg, bydd strwythur y pridd yn gwanhau, a all arwain at fwy o ddŵr ffo ar yr arwyneb.

Wrth edrych ar bob un o'r tri ffactor, rwy'n dal i gredu mai adeiladu aneddiadau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar newid arfordirol.

Uned 2

- 1ai)** Sut mae defnydd tir yn newid ar hyd trawslun dinas Caerdydd?
- 1aii)** Dewisais y cwestiwn ymholi hwn am fod fy ymholiad yn seiliedig ar 'drawsluniau'. Mae Caerdydd yn ddinas fawr yn fy ardal leol (cynefin) ac mae amrywiaeth o ddefnydd tir ledled y ddinas. Mae astudio trawslun ar draws y ddinas yn debygol o ddangos newid mewn defnydd tir.
- 1bi)** Gallech fod wedi dewis:
- 192744
 - 178750
 - 163767
 - 146209
- 1bii)** Wrth astudio sut mae defnydd tir yn newid ar hyd trawslun, roeddwn am astudio llinell ar draws y ddinas er mwyn gweld sut mae adeiladau a'u defnydd yn newid. Dechreuais wrth y morlin a dilynais y trawslun ar draws y ddinas gyfan. Penderfynais edrych ar bedwar safle fel sampl cynrychioliadol a defnyddiais fap AO i ddod o hyd i leoliadau lle y gallwn weld newidiadau mewn defnydd tir. Sicrhais hefyd fod safleoedd yr astudiaeth wedi'u gwasgaru ar draws y ddinas.
- 1c)** Y risgiau posibl i mi fy hun yw y gallwn fynd ar goll neu ddod i anghydfod ag aelod o'r cyhoedd. Mae'r risgiau i'r cyhoedd yn gymharol isel. Y brif risg yw y gallwn darfu ar fywyd pob dydd pobl leol y byddai'n rhaid i mi fod yn ystyriol ohonynt. Mewn ardaloedd preswyl, byddai hefyd angen i mi fod yn ystyrlon o'r ffaith ygallai'r trigolion feddwl tybed pam fy mod yn edrych ar eu cartrefi ac yn ysgrifennu ar ddarn o bapur. O ran yr amgylchedd, byddai angen i mi sicrhau na fyddwn yn mynd ag unrhyw beth nad oedd yn perthyn i mi nac yn gadael unrhyw beth ar ôl. Wrth gasglu data, bydd angen i mi wneud yn siŵr na fyddaf yn newid yr amgylchedd mewn unrhyw ffordd.
- 2ai)** Samplu systematig
- 2aii)** Byddwn yn defnyddio samplu systematig gan y byddai hyn yn sicrhau fy mod yn defnyddio'r un dull ym mhob un o'r safleoedd sampl a bod y data'n cael eu cofnodi'n gyson. Byddai hefyd yn golygu y byddai'r dull yr un peth pe bai grwpiau gwahanol yn casglu data o safleoedd gwahanol. Byddai hyn yn golygu bod modd cymharu'r samplau.
- 2bi)**
- Arolwg defnydd tir i gofnodi'r math o adeiladau ac at ba ddiben y maent yn cael eu defnyddio.
 - Arolwg ansawdd amgylcheddol i gofnodi cyflwr amgylchedd cyffredinol pob ardal, er enghraifft sbwriel, ardaloedd gwyrdd, ac ati.
 - Cyfrif cerddwyr i gofnodi faint o bobl sy'n cerdded o gwmpas yr ardal.
 - Cyfrif traffig i gofnodi lefel y traffig a pha fath o gerbydau sydd yn yr ardal.
- 2bii)** Byddai'r data eilaidd y byddwn yn chwilio amdano yn cynnwys:
- cyfraddau troseddu
 - cost gyfartalog tai/eiddo yn yr ardal
 - incwm cyfartalog fesul cartref yn yr ardal.
- Byddai defnyddio data eilaidd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am bob ardal a allai helpu i esbonio rhai o'r tueddiadau yn fy nata cynradd. Gallai hefyd atgyfnerthu neu nodi anghysondeb yn y data cynradd na fyddwn o bosibl wedi sylwi arnynt.
- 3ai)** Cymedr a chyfrannau
- 3aii)**
- Gellid defnyddio map coropleth i ddangos mathau gwahanol o ddefnydd tir mewn ardal. Mae hyn yn ffordd weledol wych o ddangos amrywiadau mewn defnydd tir.
 - Gellid defnyddio siart gylch i ddangos cost tai mewn ardal am ei bod yn dangos cyfrannau.

- 4) Mae'r data yn dangos bod cyflymder y dŵr yn cynyddu o 0.19m/s wrth safle 1 i 1.12m/s wrth safle 10. Roedd rhai canlyniadau anghyson wrth safle 2 a 4 lle gwelwyd y cyflymder yn cynyddu ac yna'n gostwng eto wedi hynny.

Cynyddodd lled y sianel o safle 1 i safle 10 hefyd, a gwelwyd yr un duedd wrth edrych ar ddyfnder y sianel. Mae'r cynnydd yn lled a dyfnder y sianel yn cynrychioli'r hyn y byddwn yn disgwyl ei weld mewn afon. Mae ychwanegu dŵr at y sianel yn cynyddu'r potensial ar gyfer erydu, wrth i'r afon fynd yn lletach ac yn ddyfnach. Mae'n ymddangos bod hyn hefyd yn effeithio ar gyflymder y dŵr. Gallai hyn fod oherwydd bod llai o ffrithiant mewn sianel letach a dyfnach. Nid yw rhan ganol y sianel yn cyffwrdd â'r gwely na'r glannau, felly ni fyddai'n cael ei harafu gan ffrithiant.

- 5) • Amrediad cyflymder: $1.12 - 0.19 = 0.93\text{m/s}$
• Lled cymedrig: $14.2 + 10.6 + 10.5 + 7 + 6.3 + 4.6 + 5.5 + 4.4 + 3.0 + 1.4 = 67.5$
 $67.5 \div 10 = 6.75\text{m}$

- 6) Ar sail y dystiolaeth, gallaf weld bod sianel yr afon yn cynyddu mewn maint o'r tarddle i'r aber. Mae'r data yn dangos mai lled y sianel wrth y tarddle oedd 1.4m ac mai ei lled wrth yr aber oedd 14.2m – cynnydd o 12.8m ar hyd y rhan o'r afon a astudiwyd. Cynyddodd dyfnder yr afon ar hyd y rhan o'r afon a astudiwyd hefyd (cynnydd o 63cm). Mae'n debyg mai'r rheswm dros hyn yw'r cynnydd yng nghyffwrdd y dŵr ar ôl i sawl llednant ymuno â phrif sianel yr afon, sy'n cynyddu cyfaint y dŵr. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfaint yn rhoi mwy o rym erydol i'r dŵr, a fydd yn cynyddu maint y sianel.

- 7) Wrth gynllunio fy ymholiad, ceisiais ei wneud yn brawf mor deg â phosibl. Roedd y cwestiwn ymholi yn benodol ac yn esbonio nod yr astudiaeth. Cafodd y lleoliadau casglu data eu dewis ar bellteroedd rheolaidd ledled y ddinas mewn lleoliadau a oedd yn ddiogel ac yn hygyrch. Dylai'r amrywiaeth o leoliadau ddarparu sampl cynrychioliadol o ddefnydd tir ledled y ddinas. Er mwyn gwneud yr astudiaeth yn fwy cywir, gallwn fod wedi casglu data o fwy o safleoedd, ond nid oedd hyn yn bosibl yn yr amser a neilltuwyd ar gyfer y gwaith. Mae defnyddio samplu systematig yn sicrhau bod modd cymharu'r data o bob safle, hyd yn oed os cawsant eu cofnodi gan grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Pe bawn wedi defnyddio samplu oportiwistaidd, efallai na fyddai wedi bod modd cymharu data a gasglwyd gan grwpiau gwahanol. Bydd casglu data eilaidd yn ychwanegol at y data cynradd yn golygu bod modd ychwanegu cyd-destun at y data cynradd a bydd hefyd yn helpu i nodi unrhyw anghysondebau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried unrhyw duedd y gallai'r data eilaidd ei ddangos. Ar y cyfan, rwy'n teimlo bod y gwaith cynllunio yn effeithiol er mwyn casglu sampl data dibynadwy.


Uned 3

- 1ai)** Mae'r holl gyfraddau cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu dros amser.
- 1aii)**
- Efallai fod diwydiannau gogledd Cymru wedi dirywio a allai fod wedi arwain at allfudiad gweithwyr.
 - Efallai fod mwy o arian wedi cael i fuddsoddi yn ne-ddwyrain Cymru am ei fod yn gartref i brifddinas Cymru ac, felly, yn cael mwy o gyllid gan y llywodraeth.
 - Efallai fod mwy o arian wedi cael ei fuddsoddi yn niwydiannau egni'r de-orllewin, fel egni llanw mewn ardaloedd fel Sir Benfro am eu bod yn agos at yr arfordir.
- 1aiii)** Gallai eich ateb gynnwys unrhyw ddau bwynt o'r rhestr ganlynol.
- Mynediad at gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol
 - Prisiau tai
 - Tai o ansawdd da ar gael i bobl
 - Ansawdd isadeiledd
- 1aiv)** Efallai fod llai o wasanaethau neu isadeiledd mewn ardaloedd sy'n fwy anghysbell, fel aneddiadau gwledig. Ffactor ffisegol posibl arall yw'r dirwedd. Er enghraifft, mae'n fwy anodd adeiladu ar ardaloedd mynyddig nag ardaloedd gwastad, sy'n arwain at ddiffyg isadeiledd.
- 1bi)** Rwy'n cytuno â'r datganiad hwn i raddau. Gall ffactorau dynol, fel trefedigaethedd, olygu bod gwledydd incwm isel yn parhau i fod heb eu datblygu'n llawn am fod diffyg adnoddau gwerthfawr i'w masnachu â gwledydd eraill. Y rheswm dros hyn yw bod gwledydd incwm uchel wedi mynd â'r asedau hyn i'w gwerthu eu hunain yn y gorffennol. Mae ffactorau dynol fel blociau masnach a thollau yn chwarae rôl sylweddol yn y bwlch datblygiad. Os cânt eu gosod yn rhy uchel, gallant brisio gwledydd incwm isel allan o'r farchnad, sy'n golygu bod unrhyw elw y mae'r wlad incwm isel yn ei wneud o'i nwyddau yn fach iawn.
- Ar y llaw arall, gallaf hefyd weld bod ffactorau ffisegol yn gallu cael effaith fawr ar ddatblygiad gwledydd incwm isel. Er enghraifft, gall cyfnodau o sychder atal cynydu rhag tyfu, gan adael gwledydd incwm isel heb ddim i'w werthu neu ei gynaeafu.
- Ar y cyfan, rwy'n credu bod ffactorau dynol a ffisegol yn effeithio ar y bwlch datblygiad.
- 2ai)** Hinsawdd yw'r amodau tywydd cyfartalog mae ardal yn ei derbyn dros gyfnod o amser, e.e. 30 mlynedd.
- 2aii)** **Uchder** – po fwyaf yw'r uchder, yr oeraf fydd y tymheredd. Mae ardaloedd uwch yng Nghymru yn tueddu i gollu mwy o wres.
- Ceryntau cefnforol** – po agosaf yw ardal i dde neu dde-orllewin y DU, y cynhesaf y bydd y tymheredd yn ystod y gaeaf o ganlyniad i'r cerrynt cefnforol cynnes. Daw'r llif hwn â cheryntau dŵr cynhesach, gan godi'r tymheredd yn ystod y gaeaf.
- Aergyrrff** – bydd ardal lle ceir aergyrrff trofannol arforol yn aml yn derbyn hinsoddau cynnes a gwlyb o gymharu â'r rhai sy'n derbyn hinsoddau pegynol arforol (oer a gwlyb) neu hinsoddau pegynol gyfandirol (oer a sych).
- Lledred** – po agosaf yw ardal i'r cyhydedd, y cynhesaf y bydd o ganlyniad i ymbelydredd solar uniongyrchol.
- 2aiii)** Mae gwasgedd isel yn datblygu wrth y cyhydedd am fod yr haul yn tywynnu'n uniongyrchol arno y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod y tir a'r cefnforoedd wrth y cyhydedd yn gynhesach. Mae'r gwres hwn yn cynhesu'r aer uwchlaw, sydd wedyn yn codi. Pan fydd yr aer cynnes yn codi, bydd llai o aer yn agos at y ddaear, sy'n creu gwasgedd isel. Hefyd, mae gwyntoedd o'r gogledd a'r de yn uno wrth y cyhydedd ac yn gwrthio mwy o aer i fyny, sy'n cadw'r gwasgedd wrth y cyhydedd yn isel.

- 2aiv)**
- Mae antiseiclonaau yn ystod yr haf yn dod â thywydd poeth a sych. Mae'r awyr fel arfer yn glir ac yn heulog. Gallant achosi tonnau gwres a chyfnodau o sychder.
 - Mae antiseiclonaau yn ystod y gaeaf yn dod â niwl, rhew a tharth yn y bore ac awyr glir yn hwyrach yn y dydd. Mae gwres yn dianc yn hawdd yn ystod y nos.

2bi) Yn fy marn i, rwy'n credu bod gwasanaethau brys yn bwysig iawn wrth ymateb i stormydd. Mae gwasanaethau brys sydd wedi'u hyfforddi'n dda a'u paratoi'n dda yn bwysig gan eu bod yn helpu i achub pobl mewn perygl. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cwmnïau egni a all adfer cyflenwadau trydan yn gyflym, gan wneud yn siŵr nad yw pobl yn marw o hypothermia a bod yr ardal yn dod dros effeithiau'r storm yn gyflym. Rwy'n credu ei bod yr un mor bwysig cynllunio a cheisio lliniaru effaith stormydd er mwyn osgoi pwysau ar y gwasanaethau brys. Er enghraifft, mae'n hollbwysig adeiladu amddiffynfeydd da rhag llifogydd a stormydd mewn ardal sy'n cael ei difrodi yn aml er mwyn iddi allu adfer yn gyflym. O ystyried lefel y difrod a achoswyd gan storm Darragh yn 2024, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn lliniaru'r effaith drwy gyhoeddi rhybuddion storm fel bod pobl yn cael amser i adael eu cartrefi.

3ai)



- 3aaii)** Mae llosgi tanwydd ffosil yn creu llawer o nwyon gwenwynig sy'n difrodi'r amgylchedd drwy atal pelydrau UV rhag dianc o'r atmosffer, gan arwain at gynhesu byd-eang. Mae gweithgarwch pobl yn ychwanegu at yr effaith tŷ gwydr mewn gwahanol ffyrdd.
- Llosgi tanwydd ffosil i bweru ffatrioedd, cartrefi neu geir.
 - Datgoedwigo er mwyn cynaeafu pren mahogani – mae hyn y rhyddhau'r carbon sydd wedi'i storio mewn llystyfiant i'r atmosffer, gan arwain at gasgliad o nwyon gwenwynig.
 - Ffermio gwartheg ar raddfa fawr, oherwydd y methan sy'n cael ei ryddhau gan y gwartheg wrth iddynt dorri gwynt.

- 3aiii)** Mae newid hinsawdd wedi cael effaith mawr ar ynys y Maldives. Yn fuan, bydd y wlad hon o dan ddŵr o ganlyniad i newid hinsawdd, wrth i lefelau'r môr godi. O ganlyniad, bydd yr ardal yn cael ei gadael a bydd rhaid i'r trigolion fudo oddi yno. Bydd y Maldives hefyd yn colli ei phrif ffynhonnell incwm sef twristiaeth, sy'n cyfrannu at hanner ei heconomi (GDP) yn flynyddol. Bydd effaith y golled hon yn ddifrifol am fod llawer o bobl yn dibynnu ar dwristiaeth ar gyfer eu bywoliaeth. I'r gwrthwyneb, mae Kenya yn wlad dirgaeedig ac mae cyfnodau o sychder o ganlyniad i newid hinsawdd yn effeithio'n fawr arni. Mae bron 2 filiwn o bobl yn ymweld â Kenya bob blwyddyn. Bydd newid hinsawdd yn lladd sawl ecosystem ac felly'n cael effaith ddifrifol ar ddiwydiant twristiaeth Kenya. Mae Kenya hefyd yn allforio gwerth \$190 miliwn o fwyd bob blwyddyn. Bydd cyfnodau o sychder yn difetha llawer o'r cynhyrchion hyn gan olygu y bydd y diwydiant yn dirywio'n sylweddol.
- 3aiv)** Mae sawl syniad ar lefel fyd-eang ar gyfer rheoli newid hinsawdd. Gallai eich ateb gynnwys unrhyw ddau bwynt o'r rhestr ganlynol.
- Yn ystod cynadleddau COP, mae llawer o arweinwyr byd-eang yn dod ynghyd i drafod ffyrdd o fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon.
 - Mae cytundeb Paris yn gosod nodau defnyddiol o ran y newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld pa mor benderfynol yw gwledydd i gyrraedd y targedau hyn.
 - Cyflwyno trethi ar garbon neu systemau capio a masnachu i geisio lleihau allyriadau.
 - Nod y Wal Werdd Fawr yn Affrica yw creu llain las o dir am 8,000 km ar draws 11 gwlad. Y targed erbyn 2030 yw adfer 100 miliwn hectar o dir sydd wedi'i ddiraddio.
- 3av)** Mae'r holl strategaethau cynaliadwy yn ymwneud â dull o'r brig i'r bôn ac o'r bôn i'r brig. Mae dulliau o'r brig i'r bôn yn cynnwys polisiau cenedlaethol a rhyngwladol, fel cytundeb Paris. Er enghraifft, ar lefel genedlaethol yn Sbaen, mae digon o baneli solar yn Seville i bweru cartrefi 3,000 o bobl gydag egni adnewyddadwy gwyrdd. Mae Awstralia yn defnyddio fframwaith y 5R, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar aildefnyddio ac ailgylchu plastig a fyddai fel arall yn mynd i mewn i'r môr gan ladd y riffiaucwrel gwerthfawr sy'n helpu i amsugno CO₂.
- Mae dulliau o'r bôn i'r brig yn canolbwyntio ar bobl leol yn cyfrannu at leihau newid hinsawdd. Er enghraifft, gall pobl leihau gwastraff plastig sy'n niweidio'r cefnforoedd drwy ryddhau carbon a halogyddion eraill. Gellir gwneud hyn drwy ailgylchu gwastraff plastig a glanhau traethau.

Uned 4

1. Mae'r mater yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd systemau dŵr a ffyrdd a allai effeithio ar gynefinoedd. Gallai adeiladu'r ffordd liniaru arwain at ddiestrio cynefinoedd.
2. Ar gyfer y cwestiwn hwn, mae angen i chi wneud eich ymchwil eich hun ar effaith y ffordd liniaru a fwriadwyd o amgylch yr M4 a'i heffaith ar gynefinoedd. Dyma rai syniadau y gallech ymchwilio iddynt:
 - Beth fydd cost y project?
 - Beth fydd llwybr y ffordd?
 - Pa gynefinoedd allai fod mewn perygl?
 - A oes unrhyw gynlluniau eraill?
 - Pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru ystyried y cynllun i adeiladu'r ffordd hon?

3. Opsiwn 1

- **Cymdeithasol** – gallai leihau amser teithio i dde Cymru gan fod disgwyl i dagfeydd ar y draffordd waethygu.
- **Economaidd** – gallai annog mwy o bobl a busnesau i symud i dde Cymru.
- **Amgylcheddol** – gallai gynnig ffordd arall gynaliadwy o deithio.

Opsiwn 2

- **Cymdeithasol** – ni fydd unrhyw darfu ar gartrefi cyfagos os na chaiff y ffordd ei hadeiladu.
- **Economaidd** – gellid gwario'r arian a arbedir ar ofal iechyd neu addysg yn lle adeiladu a chynnal a chadw'r ffordd
- **Amgylcheddol** – ni fydd unrhyw lygredd na tharfau ar gynefinoedd os na chaiff y ffordd ei hadeiladu.

Opsiwn 3

- **Cymdeithasol** – gellid annog mwy o bobl i feddwl am yr amgylchedd a gwneud llai o ddefnydd o'u ceir.
- **Economaidd** – gallai buddsoddi mewn trafndiaeth werdd fod yn well yn y tymor hir na gwario arian ar ffordd.
- **Amgylcheddol** – gallai defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus helpu i leihau ôl troed carbon.

4. Opsiwn 1

- **Cymdeithasol** – tarfu posibl ar drafnidiaeth presennol, gan gynyddu amser teithio yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffordd liniaru. Gallai hyn wneud i bobl deimlo'n rhwystredig iawn.
- **Economaidd** – byddai'n costio tua £1.6bn, y gallai fod yn well ei wario ar anghenion pwysig eraill yng Nghymru.
- **Amgylcheddol** – mae'r cynllun yn creu problemau o ran cynaliadwyedd cynefinoedd. Mae'r llygredd sŵn a fydd yn deillio o'r gwaith o adeiladu'r ffordd yn bryder hefyd.

Opsiwn 2

- **Cymdeithasol** – bydd tagfeydd traffig yn parhau a bydd hyn yn achosi rhwystredigaeth i'r cyhoedd ac, o bosibl, yn golygu y byddant yn hwyr i'r gwaith.
- **Economaidd** – efallai bydd angen i'r llywodraeth godi trethi er mwyn talu am y ffordd. Ni all yr arian a ddefnyddir i adeiladu'r ffordd gael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau pwysig eraill, e.e. addysg neu ofal iechyd
- **Amgylcheddol** – tarfu ar gynefinoedd, a allai olygu y bydd rhywogaethau yn mudo i rywle arall. Gallai'r cynnydd mewn llygredd wrth adeiladu'r ffordd a chreu arwyneb newydd effeithio ar lefelau CO2 yn yr atmosffer

Opsiwn 3

- **Cymdeithasol** – nid yw trafndiaeth gyhoeddus bob amser yn ddibynadwy. Gallai pobl barhau i ddefnyddio eu ceir er gwaethaf unrhyw fuddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus.
 - **Economaidd** – efallai na fydd y llywodraeth yn gwario'r un faint o arian ar wella trafndiaeth gyhoeddus ag y byddai wedi ei wario ar y ffordd newydd. Efallai na fydd busnesau yn symud i'r ardal os na chaiff y ffordd newydd ei hadeiladu.
 - **Amgylcheddol** – byddai'r dull newydd yn dal i gynhyrchu rhywfaint o lygredd hyd yn oed pe bai'n llai na'r hyn a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan bobl wrth ddefnyddio ffordd newydd.
5. Rwy'n credu bod manteision adeiladu'r ffordd liniaru yn fwy na'r anfanteision. Yn gymdeithasol, bydd amseroedd teithio pobl yn fyrrach, sy'n golygu y byddant yn gallu teithio i mewn ac allan o dde Cymru yn llawer cyflymach. Gallai hyn arwain at rwydweithio gwell â busnesau a allai fod am ymsefydlu ar hyd coridor yr M4 i mewn i Gymru. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi'n llawn y difrod a'r tarfu ar yr amgylchedd os caiff y ffordd ei hadeiladu. O ystyried bod lefel y traffig yn debygol o waethgu, mae angen y ffordd hon a byddai peidio â'i hadeiladu nawr yn fater o oedi'r hyn sy'n anochel. Dylid ystyried gwella trafndiaeth gyhoeddus. Nid yn unig y bydd hyn yn helpu pobl nad ydynt yn gyrru, yn y tymor hir, bydd annog mwy o bobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn lle eu ceir gan leihau allyriadau carbon.

I gloi, byddwn yn ffafrio opsiwn 1. Rwy'n credu y dylid adeiladu ffordd liniaru'r M4 gan y bydd yn helpu i ddenu mwy o gwmnïau trawswladol a gweithwyr i dde Cymru ac, felly, yn gwella'r economi. Bydd hefyd yn lleihau ciwiau ac felly allyriadau carbon ar yr M4.

6. Byddwn yn gwrthod opsiwn 2 am fod angen ffordd liniaru ar Gymru, felly ni allwn beidio ei hadeiladu. Byddai'n helpu i gysylltu ardaloedd eraill o'r de-ddwyrain ac yn lleihau tagfeydd traffig. Yn ei dro, byddai hyn yn lleihau allyriadau carbon gan na fyddai pobl wedi'u dal mewn tagfeydd traffig.

Byddwn yn gwrthod opsiwn 3 am fod angen i bobl allu teithio'n gyflym ar gyfer gwaith a dibenion cymdeithasol, felly byddai ffordd gyflymach yn fuddiol. Ni fydd buddsoddiad tymor hir mewn trafndiaeth gyhoeddus yn gwella mewnfuddsoddiad gan gwmnïau trawswladol, ac felly, ni fydd yn denu gweithwyr i dde Cymru. Gellir adennill costau adeiladu'r ffordd liniaru drwy wella mewnfuddsoddiad gan gwmnïau sy'n ymsefydlu yn ne Cymru.

7. Dyma'r Nodau Datblygu Cynaliadwy y byddwn yn eu cysylltu ag opsiwn 1:
- **17** Partneriaethau ar gyfer y nodau – byddai gweithio mewn partneriaeth ag adeiladwyr cynaliadwy i greu'r ffordd liniaru yn arwain at fwy o waith adeiladu eco-ymwybodol.
 - **10** Llai o anghydraddoldebau – bydd y ffordd liniaru yn galluogi mwy o bobl o'r gogledd i gyrraedd swyddi yn y de yn gynt.
 - **11** Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – gallai adeiladu'r ffordd greu mynediad gwell at ddinasoedd maestrefol newydd, gan wella mynediad at dai.
 - **9** Diwydiant, arloesedd ac isadeiledd – mae'r ffordd ei hun yn dystiolaeth o isadeiledd gwell sy'n cysylltu de Cymru â choridor yr M4. Os defnyddir deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy, gallai helpu i greu un o'r ffyrdd mwyaf cynaliadwy yn Ewrop.w